**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Adroddiad ar Ymchwiliad
Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru

Mehefin 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8429
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: pwyllgor.cymuned.diwylliant@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Adroddiad ar Ymchwiliad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru

Mehefin 2009

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**
**Adroddiad ar ymchwiliad**
**Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru**

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Aelodau'r Pwyllgor** | 4 |
| | |
| **Rhagair y Cadeirydd** | 5 |
| | |
| **Argymhellion** | 6 |
| | |
| **Cyflwyniad**<br>• Yr hyn y penderfynodd y Pwyllgor ymchwilio iddo a pham<br>• Cylch Gorchwyl | 8 |
| | |
| **Y fframwaith deddfwriaethol**<br>• Natur gyfreithiol y prif sefydliadau<br>• Cyd-destun statudol eu gweithrediadau<br>• Trefniadau'n ymwneud ag atebolrwydd<br>• Trefniadau arbennig sy'n berthnasol i Gymru | 9-12<br>9<br>10<br>11<br>12 |
| | |
| **Materion allweddol**<br>• Sicrhau lluosogrwydd<br>• Opsiynau ar gyfer sicrhau lluosogrwydd<br>• Portread o Gymru ar y rhwydwaith<br>• Trwydded ddarlledu yng Nghymru<br>• Radio DAB yng Nghymru<br>• Datblygu'r cyfryngau yng Nghymru | 13-33<br>13<br>16<br>27<br>30<br>31<br>32 |
| | |
| **Atodiadau**<br>• Atodiad 1 - Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn bersonol<br>• Atodiad 2 - Cofnod o bapurau'r Pwyllgor<br>• Atodiad 3 - Ymateb yr Is-bwyllgor Darlledu i ymgynghoriad Cam 2 Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus | 34-47<br>34<br>36<br>37 |

# Aelodau'r Pwyllgor



**Janice Gregory**
Cadeirydd
Ogwr
Llafur



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid
Rhyddfrydol



**Alun Cairns**
Gorllewin De Cymru
Plaid Plaid Geidwadol
Cymru



**Lesley Griffiths**
Wrecsam
Llafur



**Mark Isherwood**
Gogledd Cymru
Plaid Plaid Geidwadol
Cymru



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Dai Lloyd**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Lynne Neagle**
Torfaen
Llafur



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur

## Rhagair y Cadeirydd



Mae popeth ym maes darlledu yn y DU wedi cael ei daflu i'r pair yn ddiweddar ac ITV yn benodol yn wynebu trafferthion ariannol. Mae ITV wedi bod yn ddewis amgen hollbresennol i'r BBC ym mhob rhan o'r DU ers degawdau, ond mae'r sefyllfa honno wedi bod yn newid yn gyflym. Dros y misoedd nesaf, gall effeithiau'r dirywiad economaidd ynghyd â'r gostyngiad mewn arian hysbysebu olygu y bydd ITV yn rhoi'r gorau i'w goblygiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gadael bwlch enfawr yn y ffynonellau newyddion.

Yng Nghymru, mae'r ffynonellau newyddion eraill yn wan - mae papurau newydd lleol yn wynebu'r un problemau - felly mae'r sefyllfa hon yn arbennig o ddyrys gyda'r perygl y gellir colli lluosogrwydd newyddion yn gyfan gwbl.

Mae pawb yn cydnabod fod yr amrywiaeth o leisiau sy'n daprau newyddion a materion cyfoes yn hanfodol ar gyfer democratiaeth iach a bod hyn yn gystadleuaeth iach i'r BBC. Mae angen mwy na newyddion hefyd – mae angen i fwy o raglenni eraill gael eu comisiynu o Gymru ac am Gymru.

Gan nad yw darlledu'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ni all ein casgliadau newid yr hyn sy'n digwydd i ITV, ond argymhellwn yn gryf i lywodraeth y DU ac i lywodraeth Cymru eu bod yn cau'r bwlch cynyddol a gaiff ei adael wrth i gyfraniadau ITV leihau, gyda chronfa newydd ar gyfer comisiynu rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill o Gymru ac am Gymru. Amlinellir y cyllid sydd ei angen i wneud hyn yn seiliedig ar yr hyn a glywsom gan arbenigwyr yn y maes.

Credwn fod cyfiawnhad clir dros greu corff bach o arbenigwyr i weinyddu'r gronfa hon, sef 'Comisiwn Cyfryngau Cymru' i sicrhau lluosogrwydd a gofyn y cwestiwn i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau difrifol dros gyllido - sut le fydd Cymru heb amrywiaeth o leisiau i adlewyrchu'r newyddion a materion cyfoes?

Yr wyf yn siŵr na fydd yr ateb yn codi calon neb.

## Argymhellion

### *Argymhelliad 1*

Yn ei hadroddiad *Prydain Ddigidol* a gyhoeddir cyn bo hir, argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Llywodraeth y DU i sicrhau lluosogrwydd mewn darlledu yn Saesneg yng Nghymru er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Comisiwn Cyfryngau Cymru, a gwarantu'r lefel bresennol o gynnyrch rhaglenni ar ITV.

### *Argymhelliad 2*

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru i gomisiynu rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill yn wreiddiol i'w darlledu ar ITV a chynnwys pellach ar gyfer gwasanaethau a chyfryngau eraill. Rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer Comisiwn Cyfryngau Cymru yn ein hadroddiad.

### *Argymhelliad 3*

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol brys o'i gweithgarwch ym maes y diwydiannau creadigol a diwydiant clyweledol, gan gynnwys rôl Cronfa Eiddo Deallusol Cyllid Cymru, yr Asiantaeth Ffilmiau a'i modd o ariannu newyddiaduraeth Gymraeg a radio cymunedol Gymraeg ac ystyried y modd y gallai'r gweithgareddau hyn gynorthwyo a chefnogi Comisiwn Cyfryngau Cymru.

### *Argymhelliad 4*

Argymhellwn fod Ofcom yn mynnu bod y prif ddarparwyr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cadw at eu targedau sylfaenol o gynnyrch o Gymru ar y rhwydwaith, sef 5% o'r cynnyrch cymhwysol.

Dylai Ofcom, Llywodraeth y Cynulliad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fonitro'r cynnydd tuag at y nod hwn.

### *Argymhelliad 5*

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu asesiad blynyddol o'r portread o Gymru ar gynnyrch rhwydwaith pob un o'r darlledwyr sy'n darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC, ITV, Channel 4, S4C a Five), gan gynnwys y ddarpariaeth newyddion.

### *Argymhelliad 6*

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog Llywodraeth y DU i adolygu'r Ddeddf Darlledu er mwyn llunio un drwydded fasnachol i Gymru.

***Argymhelliad 7***

Argymhellwn fod Gweinidogion Cymru, mewn cydweithrediad ag Ofcom, yn adolygu'r posibilrwydd o ddatganoli'r dyraniad o drwyddedau radio cymunedol yng Nghymru.

***Argymhelliad 8***

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio ag Ofcom a Llywodraeth y DU i sicrhau bod DAB ar gael ar draws 90% o Gymru gyfan, a bod gwasanaethau BBC Cymru ar gael ar DAB ar draws 90% o Gymru cyn i'r signal analog gael ei ddiffodd.

***Argymhelliad 9***

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio â darlledwyr a chynhyrchwyr annibynnol i weithio gyda'r BBC i ddatblygu canolbwynt creadigol ar gyfer y cyfryngau - 'Canolfan Cyfryngau'.

# Cyflwyniad

## Yr hyn y penderfynodd y Pwyllgor ymchwilio iddo a pham

Sefydlodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Is-bwyllgor Darlledu i ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Fel y prif Bwyllgor, penderfynodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn wreiddiol y dylai'r Is-bwyllgor gwrdd ddwywaith i lunio ei ymateb i ymgynghoriad Ofcom. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar 5 Tachwedd a 10 Rhagfyr 2008. Roedd y diwydiant darlledu yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn, yn ansefydlog. Cyhoeddodd ITV y byddai swyddi'n cael eu colli, cyhoeddodd Ofcom ei adroddiad terfynol ar 21 Ionawr 2009 a chyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hadroddiad interim *Prydain Ddigidol.* Cyfeiriodd yr Is-bwyllgor Darlledu ei ymchwiliad at y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 22 Ionawr.

Er nad yw darlledu yn fater datganoledig, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb dros ddwyn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i gyfrif ar ran dinasyddion Cymru.

## Cylch Gorchwyl

Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Darlledu a gytunwyd gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 5 Tachwedd 2008:

*Mae'r pwyllgor yn cytuno y dylid sefydlu Is-bwyllgor Darlledu. Cylch gwaith yr is-bwyllgor yw cyflwyno adroddiad, erbyn 4 Rhagfyr 2008, ar y cynigion yng Ngham 2 Adolygiad Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a chyflwyno adroddiad ar adroddiad terfynol Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus o fewn 2 fis iddo gael ei gyhoeddi. Bydd yr is-bwyllgor yn peidio â bod wedi iddo gyhoeddi ei adroddiad terfynol.*

Y cylch gorchwyl diwygiedig a gytunwyd gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 29 Ionawr oedd:

*Bydd y Pwyllgor yn parhau'r ymchwiliad darlledu a ddechreuodd yr Is-bwyllgor Darlledu a bydd yn:*

- *Cyflwyno adroddiad ar oblygiadau adroddiad Digital Britain a'i adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus*
- *Cyflwyno adroddiad ar adroddiad terfynol Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus o fewn 3 mis iddo gael ei gyhoeddi*

Lluniodd yr Is-bwyllgor Darlledu ymateb i ymgynghoriad Ofcom a braenaru'r tir ar gyfer y gwaith ymchwil canlynol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. Atodir hwn i'r adroddiad yn Atodiad 2.

## Y fframwaith deddfwriaethol

### Natur gyfreithiol y prif sefydliadau

### Ofcom

Sefydlwyd Ofcom fel corff corfforaethol gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, fel ei fod wedi sefydlu cyn dechrau ar ei swyddogaethau rheoleiddiol yn deillio o Ddeddf Cyfathrebu 2003. Penodir y Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gosodir Adroddiad Blynyddol Ofcom gerbron y Senedd.

### BBC

Sefydlir y BBC yn gyfansoddiadol gan Siarter Brenhinol. Rhoddwyd y Siarter Brenhinol presennol i'r BBC ar 19 Medi 2006 a daeth i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2007.

O dan Siarter newydd y BBC, cafodd y Bwrdd Llywodraethu blaenorol ei ddisodli gan ddau gorff newydd, sef Ymddiriedolaeth y BBC a Bwrdd Gweithredol ar wahân. Ymddiriedolaeth y BBC sy'n diffinio'r meini prawf perfformiad a'r mesurau ar gyfer beirniadu darpariaeth y Bwrdd Gweithredol o wasanaethau a gweithgareddau'r BBC, a'r Ymddiriedolaeth sy'n dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif. Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am weithrediadau'r BBC o ddydd i ddydd.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfanswm o 12 aelod, gan gynnwys aelodau penodol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Penodir yr aelodau gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gosodir Adroddiad Blynyddol y BBC gerbron y Senedd.

### ITV

O ganlyniad i uno nifer o gwmnïau rhanbarthol a weithredai ryddfreiniau ITV (Sianel 3) yng Nghymru a Lloegr, mae'r cyfan bellach yn un cwmni cyfyngedig cyhoeddus, sef ITV ccc. Gall y cyhoedd brynu a gwerthu cyfranddaliadau yn ITV ccc. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol ITV i'w chyfranddalwyr.

### S4C

Sefydlwyd gwasanaeth S4C yn wreiddiol o dan Ddeddf Darlledu 1981 a'i ddarparu gan Awdurdod Sianel Pedwar Cymru. Cafodd cyfansoddiad Sianel Pedwar Cymru ei sefydlu fel corfforaeth statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990, a pharhaodd i weithredu swyddogaethau blaenorol yr Awdurdod. Penodir yr aelodaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (o dan adran 45 o Ddeddf Darlledu 1990). Gosodir Adroddiad Blynyddol S4C gerbron y Senedd.

## Channel 4

Sefydlwyd gwasanaeth Channel 4 yn wreiddiol o dan Ddeddf Darlledu 1981 a'i ddarparu gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol. Sefydlwyd y Channel Four Television Corporation fel corfforaeth statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990 a throsglwyddwyd swyddogaethau'r sianel i'r Gorfforaeth newydd yn 1993. Penodir bwrdd y gorfforaeth gan Ofcom (o dan Atodiad 1 o Ddeddf Cyfathrebu 2003) gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gosodir Adroddiad Blynyddol Channel 4 gerbron y Senedd.

## Five

Mae Channel 5 Broadcasting Limited (a elwir yn Five) yn gwmni cyfyngedig (sy'n eiddo llawn i RTL) o fewn y Bertelsmann Group, ac mae'n disgrifio'i hun fel un o'r cwmnïau cyfryngau ac adloniant mwyaf yn y byd. Felly ni all y cyhoedd brynu a gwerthu cyfranddaliadau yn Channel 5 Broadcasting Limited.

## Sky

Mae'r British Sky Broadcasting Group ccc yn gwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig, ond yn gysylltiedig â'r News Corporation byd-eang. Gall y cyhoedd brynu a gwerthu cyfranddaliadau yn y British Sky Broadcasting Group ccc. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol y cwmni i'w gyfranddalwyr.

## Cyd-destun statudol eu gweithrediadau

Fel y gwelir uchod, mae awdurdod statudol gwaith S4C a Channel 4 yn bennaf o fewn Deddfau Darlledu 1981 a 1990. Cafodd cyd-destun rheoleiddiol eu gweithrediadau hwy, yn ogystal â'r darlledwyr annibynnol, ei newid yn sylweddol gan Ddeddf Cyfathrebu 2003. Er enghraifft, mae adran 203 o Ddeddf 2003 yn nodi:

> "It shall be a function of Ofcom, to the extent that provision for them to do so is contained in this Act and Part 5 of the 1996 Act, to regulate the services provided by the Welsh Authority [S4C].

Mae cyfrifoldebau Ofcom mewn cysylltiad â darlledu yn cynnwys trwyddedu gwasanaethau teledu a radio'r DU ar analog a digidol daearol, cebl a lloeren. Mae Cod Darlledu Ofcom yn nodi'r rheolau y dylai darlledwyr teledu a radio eu dilyn. Mae'r Cod yn gosod safonau ar gyfer diogelu plant o dan 18 oed ond yn caniatáu rhyddid creadigol priodol i ddarlledwyr hefyd.

Mae'n ofynnol i Ofcom gynnal traddodiad y DU o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus o safon uchel ac atgyfnerthu hynny. Mae Ofcom hefyd yn goruchwylio cwotâu a fwriedir i sicrhau amrywiaeth eang o raglenni teledu gan gynhyrchwyr annibynnol a'r rhai a ddaw gan wledydd a rhanbarthau'r DU.

Mae Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 hefyd yn caniatáu rôl gyfyngedig i Ofcom mewn cysylltiad â rheoleiddio'r BBC.

O ran y sianelau annibynnol (sef ar wahân i'r BBC, S4C a Channel 4), y fframwaith trwyddedu a weithredir ar y cyfan gan Ofcom yw'r hyn sydd yn Neddf Darlledu 1990, er iddynt gael eu diwygio'n sylweddol gan Ddeddf 2003. Yn ogystal â rhoi trwyddedau i ddarlledwyr, mae'r ddeddfwriaeth honno hefyd yn darparu ar gyfer gosod amodau ar gyfer y trwyddedau hynny a'r camau gorfodaeth sydd ar gael i Ofcom.

## Trefniadau'n ymwneud ag atebolrwydd

Yr atebolrwydd ffurfiol o ran Adroddiadau Blynyddol yw y dylai Ofcom, y BBC, S4C a Channel 4 gyflwyno'u Hadroddiadau Blynyddol i'r Senedd ac y dylai ITV a Sky gyflwyno'u Hadroddiadau Blynyddol i'w cyfranddalwyr (ac yn anuniongyrchol felly o ran Five, fel is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr). Caiff y darlledwyr eu rheoleiddio gan Ofcom hefyd yn y modd a gaiff ei ddisgrifio uchod.

Gwneir trefniadau atebolrwydd mewnol Ofcom drwy ei bwyllgorau cynghori; y Panel Defnyddwyr, y Pwyllgor Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl, a'r Pwyllgor Cynghori ar gyfer y Gwledydd.

Mae'r Panel Defnyddwyr yn cynnwys aelodau rhan amser gyda chydbwysedd arbenigedd mewn materion yn y sector cyfathrebu electronig. Ceir aelodau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Penodir aelodau'r panel defnyddwyr gan Ofcom, yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Penodir aelodau'r panel yn unol ag egwyddorion Nolan am dymor o ddwy neu dair blynedd ac maent yn gymwys i gael eu hail-benodi. Rhoddir cymorth i'r Panel Defnyddwyr gan dîm cymorth bach.

Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu a chynnal Pwyllgor Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl. Mae Adran 21 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor gynnwys (a) cadeirydd a benodir gan Ofcom; a (b) nifer o aelodau eraill a benodir gan Ofcom sy'n addas yn ôl Ofcom. Swyddogaeth y Pwyllgor fydd rhoi cyngor i Ofcom (gan gynnwys pwyllgorau eraill a sefydlir gan Ofcom) am fuddiannau (a) pobl hŷn; a (b) pobl sydd ag anableddau, mewn cysylltiad â materion cyfathrebu.
Mae Ofcom wedi sefydlu pwyllgorau cynghori ar wahân ar gyfer y gwledydd o dan Adran 20 o Ddeddf Cyfathrebu 2003. Penodir aelodau'r pwyllgorau cynghori ar gyfer pob gwlad drwy broses gyhoeddus gan Ofcom. Mae'r pwyllgorau cynghori hyn yn nodi'r agweddau hynny ar waith cyfredol Ofcom a chyfathrebu'n gyffredinol sydd o bwys arbennig i'w gwlad, yn gweithio gyda Gweithrediaeth Ofcom i gael gwybodaeth am y pynciau hyn a chynnig cyngor i Ofcom yn ôl yr angen.

Mae trefniadau mewnol y BBC yn debyg, gyda Chyngor Cynulleidfa penodol ar gyfer pob gwlad, o dan gadeiryddiaeth yr aelod penodol o'r

Ymddiriedolaeth ar gyfer y wlad honno. Fodd bynnag, gweithredir ei phrif brosesau atebolrwydd drwy'r Bwrdd Gweithredol i'r Ymddiriedolaeth, ar ôl gwahanu'r cyfrifoldeb yn ffurfiol o dan y Siarter presennol. Rhaid i fanylion sefydlu a chynnal y Cynghorau, yn ogystal â'r drefn recriwtio ar eu cyfer, gael eu nodi mewn Protocol o dan y Siarter. Penodir aelodau'r Cyngor Cynulleidfa gan yr Ymddiriedolaeth ar argymhelliad panel sy'n cynnwys yr Aelod o'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y wlad honno a dau asesydd annibynnol (o restr Llywodraeth y Cynulliad o aseswyr annibynnol) ar ôl cynnal proses recriwtio agored yn unol ag arferion penodiadau cyhoeddus.

Mae cyfrifoldebau S4C wedi eu gwahanu hefyd, gydag Awdurdod a Bwrdd. Fel sefydliad llawer llai, mae hefyd yn defnyddio cyfarfodydd cyhoeddus fel rhan o'r trefniadau atebolrwydd ac mae wedi bod yn dyst rheolaidd mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Trefniadau arbennig sy'n berthnasol i Gymru

Ni cheir cynrychiolydd penodol i Gymru ar brif fwrdd Ofcom, ond penodir un aelod o'r Bwrdd Cynnwys i gynrychioli buddiannau a barn pobl Cymru i Ofcom. Mae Ofcom yn penodi Pwyllgor Cynghori ar gyfer Cymru i gynghori Ofcom ar fuddiannau a barn pobl Cymru o ran materion cyfathrebu.

Penodir un aelod o Ymddiriedolaeth y BBC yn Aelod dros Gymru, i gadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru, ac a benodir gan yr Ymddiriedolaeth. Y Cyngor Cynulleidfa sy'n gyfrifol am graffu ar berfformiad y BBC ar ran cynulleidfaoedd sy'n byw yng Nghymru a chynghori Ymddiriedolaeth y BBC ar faterion sy'n ymwneud â chynulleidfaoedd a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru.

Mae S4C yn amlwg yn sefydliad penodol i Gymru. Ar y llaw arall, ni fu gan Channel 4 unrhyw ddiddordeb penodol o ran Cymru, gan mai cyflenwi gwasanaeth i'w gynnal ar analog i S4C oedd yn bennaf.

Er nad yw'r cyfrifoldeb dros faterion darlledu wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ymgynghori â hi ac yn cydweithio â hi o ran materion sy'n ymwneud â darlledu. Yn yr un modd, nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw bwerau deddfwriaethol o ran materion sy'n ymwneud â darlledu, ac mae darlledu yn fater sydd wedi'i eithrio'n benodol o'r pwerau a drosglwyddir i'r Cynulliad ar ôl cynnal refferendwm, ac a nodir yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Er hynny, gallai Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru gael ei diwygio gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 95, felly gallai pwerau gwneud Mesurau gael eu defnyddio pe bai Llywodraeth y DU yn cymeradwyo'r Gorchymyn hwnnw.

## Materion allweddol

## Sicrhau lluosogrwydd

*Mae gwasanaethau teledu, radio a phrint yn dal drych i fyny i gymdeithas …os nad oes rhaglenni, nid ydych yn cael cyfle i weld eich hun. Mae angen amrywiaeth o leisiau ar gyfer hynny. Beth bynnag yw gogoniant y BBC, nid yw'n beth iach i gael monopoli o'r math hwnnw*[1]

1. Mae lluosogrwydd – amrywiaeth o leisiau – yn derm a ddefnyddir yn aml ym myd darlledu wrth drafod sefyllfa'r BBC, ond mae'n golygu mwy na'r cynnwys a ddarperir gan unrhyw un a heblaw'r BBC; mae'n hwyluso amrywiaeth o fynegiant ym maes darlledu a chyfryngau eraill fel papurau newydd, radio ac ar-lein ac mae'n cyfrannu at ddemocratiaeth iach.

2. Mae effaith datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi creu rheidrwydd democrataidd - mae gwahaniaethau yn y polisïau iechyd, addysg a thrafnidiaeth, ymysg eraill yn y gwledydd, ynghyd â systemau gwleidyddol newydd a gwleidyddion penodol ar gyfer y swyddogaethau hynny. Mae angen craffu ar y polisïau hyn, eu harchwilio a'u hegluro i'r cyhoedd ac mae angen newyddiaduraeth o'r safon uchaf arnom a gwahanol ffynonellau gwybodaeth i wneud hyn. Mae'n cyfrannu at ddemocratiaeth iach. Nid yw Cymru yn yr un sefyllfa â rhanbarthau Lloegr - nid ydynt yn rhannu'r un rheidrwydd democrataidd. Dyna pam y dylai sicrhau lluosogrwydd darpariaeth y cyfryngau fod yn fan cychwyn ar gyfer cyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn arbennig o ran newyddion, materion cyfoes a gwleidyddiaeth.

3. Nid ystyriaeth ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru yn unig yw lluosogrwydd. Mae Cymru'n wanach na'r Alban a Gogledd Iwerddon ym mhob agwedd, bron, ar y cyfryngau. Mae ganddi sector radio masnachol gwan[2] ac mae Cymru ar ei cholled hefyd yn y cyfryngau printiedig:

*Indigenous print media are already very limited and are threatened by structural change. No London newspaper publishes a Welsh edition. Nearly 90 per cent of daily newspaper readers in Wales are reading papers with no Welsh content*[3]

### *Sefyllfa'r BBC*

*…the BBC invests so much in journalism in Wales – this is probably the part of the United Kingdom where we spend the most money on getting the*

---

[1] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 10.12.08

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Communication and Content, The Media Challenge for Wales – Report for the Minister of Heritage, Tachwedd 2008 – BSC(3)-02-08, papur 2

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Communication and Content, The Media Challenge for Wales – Report for the Minister of Heritage, Tachwedd 2008 – BSC(3)-02-08, papur 2

*journalism right…the way in which we can offer comprehensive journalism and current affairs programming across television, radio, the web and other devices in the English and Welsh languages is a great strength. We know from talking to the public that they agree*[4]

4. Ar hyn o bryd, mae BBC Cymru'n gwario £24 miliwn ar raglenni teledu Saesneg. Fodd bynnag, mae wedi ymrwymo i dorri £3 miliwn y flwyddyn o'r cyllidebau yng Nghymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf - gostyngiad o £15 miliwn ar draws ei holl wasanaethau ar gyfer Cymru a'i chynyrchiadau rhwydwaith[5].

***Sefyllfa ITV***

5. Mae sefyllfa bresennol ITV wedi bod yn gatalydd o ran cyflymu'r argyfwng ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

6. Ar hyn o bryd, mae ITV yn darlledu 4½ awr yr wythnos o newyddion, gan gynnwys y brif raglen newyddion *Wales Tonight* ac 1½ awr yr wythnos o raglenni eraill sy'n cynnwys materion cyfoes a rhaglen gelf wythnosol. Mae'n gwario £5 miliwn ar newyddion a £2 filiwn ar raglenni eraill yng Nghymru.[6]

7. Mae darpariaeth newyddion ITV Cymru yn cyrraedd cynulleidfa wahanol i raglenni newyddion BBC Cymru gyda'i darpariaeth newyddion. Mae gan *Wales Tonight* gyfartaledd cynulleidfa wythnosol o 250,000 o'i gymharu â *Wales Today* (575 000 o wylwyr) ar y BBC a dim ond 10 y cant sy'n gwylio'r ddwy raglen.[7]

8. Er gwaetha'r gefnogaeth gyhoeddus i'w gwasanaethau, mae ITV mewn sefyllfa ariannol ddyrys:

*We are facing a recession that is hitting the commercial broadcasting sector as hard as any sector, at the same time as structural change, which means that the traditional commercial public service broadcasters face a more challenged economic model than ever before. You could describe those two events happening together as a perfect storm*[8]

9. Mae'r storm berffaith eisoes wedi arwain at ostyngiad o 20% yn y refeniw hysbysebu yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn a chyhoeddi colli 600 o swyddi eleni, yn ogystal â'r 430 a gollwyd y llynedd yn ITV.[9]

---

[4] BBC – Mark Thompson, Cyfarwyddwr Cyffredinol – tystiolaeth lafar 12.03.09

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Communication and Content, The Media Challenge for Wales – Report for the Minister of Heritage, Tachwedd 2008 – BSC(3)-02-08, papur 2

[6] ITV – Mike Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon – tystiolaeth lafar 26.03.09

[7] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Communication and Content, The Media Challenge for Wales – Report for the Minister of Heritage, Tachwedd 2008 – BSC(3)-02-08, papur 2

[8] ITV – Mike Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon – tystiolaeth lafar 26.03.09

[9] ITV – tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor: CC(3)-06-09 : Papur 2

10. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy:

*…not so long ago ITV's licences as a digital broadcaster across the UK were in surplus rather than deficit…in the medium to long-term the level of our provision is commercially unsustainable. We need to align the costs and benefits of our licences*[10]

11. Yn y tymor byr, mae'n ofynnol i ITV gynnal ei chynnyrch presennol nes y daw ei thrwydded darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ben yn 2010, ond ni fydd yn gwarantu parhad y ddarpariaeth hon ar ôl 2010:

*If we want to preserve plurality in news and perhaps beyond that, the key question of funding needs to be addressed rather than, in a sense, looking to ITV and wishing that past realities were current ones*[11]

***Sefyllfa S4C***

12. Caiff S4C gyllid uniongyrchol o £94 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth y DU, ynghyd â gwerth £25 miliwn o raglenni gan BBC Cymru[12] (ers 1982, mae statudau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu o leiaf deng awr o raglenni'r wythnos ar gyfer S4C, wedi'u hariannu gan ffi'r drwydded)[13].

*The core business of S4C is to broadcast Welsh language programming. That is in statute and it is enshrined and protected. The money that we receive is for that purpose*[14]

13. Ar hyn o bryd, nid yw S4C yn darparu rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Saesneg.

***Casgliadau***

14. Mewn cyfnod pan mae pwysigrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi tyfu, a phan ddaw yn fwyfwy pwysig deall y gwahaniaethau rhwng polisïau Cymru a gweddill y DU, mae'n peri cryn bryder bod hyd yn oed y ddarpariaeth gymharol fach o newyddion a rhaglenni eraill ar ITV Cymru o dan fygythiad:

*while media outlets proliferate, those involving material originating in Wales contract and media consumption in Wales are dominated by material from outside…Wales is on track to be a passive consumer of content created by others rather than having a strong voice of its own*[15]

---

[10] ITV – Mike Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon – tystiolaeth lafar 26.03.09
[11] ITV – Mike Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon – tystiolaeth lafar 26.03.09
[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Communication and Content, The Media Challenge for Wales – Report for the Minister of Heritage, Tachwedd 2008 – BSC(3)-02-08, papur 2
[13] BBC – tystiolaeth ysgrifenedig – CC(3)-05-09: Papur 3
[14] S4C – John Walter Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C – tystiolaeth lafar 12.03.09
[15] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Communication and Content, The Media Challenge for Wales – Report for the Minister of Heritage, Tachwedd 2008 – BSC(3)-02-08, papur 2

15. Os daw'r gwaith o gynhyrchu rhaglenni yn ITV Cymru i ben, y BBC fydd unig ddarparwr rhaglenni teledu Saesneg yng Nghymru ar gyfer Cymru.

16. Nid oes neb, gan gynnwys y BBC, am weld un sefydliad yn cael y monopoli dros ddarpariaeth newyddion - a'r holl ddulliau cysylltiedig o gyflwyno gwleidyddiaeth a materion cyfoes - yng Nghymru:

*We believe that there is a strong need to sustain plurality as far as possible. This is not just about broadcasting plurality; it is about news media plurality*[16]

17. Gwelwn o waith ymchwil Ofcom fod cynulleidfaoedd Cymru o'r farn mai lluosogrwydd mewn darpariaeth newyddion yw'r mater pwysicaf[17], er bod barn gref y dylai ystyriaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yng Nghymru edrych y tu hwnt i newyddion a materion cyfoes yn unig:

*dylai DGC cyfrwng Saesneg ddarparu amrywiaeth o raglenni i wylwyr yng Nghymru sy'n cael eu targedu'n benodol at eu diddordebau neilltuol*[18]

18. Credwn yn gryf nad yw'r broblem hon yn gyfyngedig i luosogrwydd newyddion – mae angen lluosogrwydd ar draws y sbectrwm darlledu gwasanaeth cyhoeddus:

*…this should not be seen as an exercise that is simply about news. It has to go beyond that*[19]

19. Nid yw strwythurau hanesyddol sydd wedi darparu lluosogrwydd a chystadleuaeth mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ITV yn y gorffennol yn gynaliadwy. Felly nid yw cynnal y sefyllfa bresennol a gobeithio'r gorau yn ddewis hyfyw os ydym am ddiogelu lluosogrwydd.

20. Yn y tymor byr, hoffem weld ymrwymiadau darlledu gwasanaethu cyhoeddus ITV Cymru i newyddion a rhaglenni eraill yn parhau, cyhyd ag y bo'n ymarferol rhesymol. I gyflawni hyn, rydym yn annog Llywodraeth y DU ac Ofcom fel y rheoleiddiwr, i geisio defnyddio'u dylanwad er mwyn sicrhau y cynhelir y sefyllfa hon. Derbyniwn, fodd bynnag, y gallai fod yn anodd cyflawni hyn ar ôl 2010 a chytunwn fod angen dod o hyd i strwythurau ariannu a chomisiynu amgen ar gyfer y tymor hir er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

## Opsiynau ar gyfer sicrhau lluosogrwydd

21. Mae'r argyfwng ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n dod yn amlwg ledled y DU wedi datblygu'n gyflym ac mae'n arbennig o ddyrys yng Nghymru. Yn ystod yr ymchwiliad hwn rydym wedi clywed llu o

---

[16] BBC – Mark Thompson, Cyfarwyddwr Cyffredinol – tystiolaeth lafar 12.03.09
[17] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09
[18] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig
[19] Ofcom – Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Cymru – tystiolaeth lafar 10.12.08

atebion posibl sy'n cael eu trafod ymysg rhanddeiliaid allweddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Amlinellir yma rai o'r opsiynau a gyflwynwyd i ni yn ystod yr ymchwiliad hwn ac mae'n cloi gyda'r farn sydd gennym am y modd y dylid mynd i'r afael â'r mater hwn wrth ddatblygu'r cynigion arfaethedig hyn i lunio ateb addas i Gymru.

22. Mae cronoleg y digwyddiadau diweddar yn bwysig er mwyn deall cyd-destun ein hargymhellion:

- Ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd Ofcom Gam 2 o'i adolygiad i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bu hyn yn sbardun i ddadl. Daeth i gasgliadau a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Ionawr eleni – roedd hyn yn cyflwyno argymhellion Ofcom i'r llywodraeth

- tua'r un pryd, lluniodd S4C gynnig a oedd yn cyfateb i syniadau Ofcom

- yn gyfochrog i hynny, llofnododd y BBC ac ITV bartneriaeth newydd i arbed adnoddau

- cyhoeddodd Llywodraeth y DU farn ar y modd roedd polisi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn datblygu yn ei hadroddiad interim *Prydain Ddigidol* yn fuan ar ôl cyhoeddi adroddiad Ofcom a oedd yn dwyn rhai o'r datblygiadau hyn ynghyd ac yn awgrymu cyfeiriad y datblygiadau

- bydd llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei chasgliadau terfynol yn yr adroddiad *Prydain Ddigidol* ym mis Mehefin eleni ac mae wrthi'n ystyried ar hyn o bryd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd iddi

23. Rydym wedi cyfleu prif gasgliadau ac argymhellion yr ymchwiliad hwn i dîm *Prydain Ddigidol* er mwyn eu hystyried wrth ystyried safbwynt polisi llywodraeth y DU. Roedd angen gwneud hyn cyn cyhoeddi'r adroddiad oherwydd amseriad adroddiad terfynol *Prydain Ddigidol* a gyhoeddir ganol mis Mehefin.

24. Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu'r cynigion a ddaeth gan y prif randdeiliaid a'n hargymhellion ar gyfer sicrhau lluosogrwydd.

### *Cynigion Ofcom*

25. Cyflwynodd Ofcom adroddiad ar ei adolygiad i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ym mis Ionawr eleni a datgan:

*Y cwestiwn canolog yw sut y gall system darlledu gwasanaeth cyhoeddus hanesyddol lwyddiannus a chryf lywio o'i ffurf analog i fodel digidol newydd.*[20]

[20] Ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Rhoi Gwylwyr yn Gyntaf

26. Roedd yr adroddiad yn amlinellu awgrymiadau i lywodraeth y DU eu hystyried wrth lunio ateb. Yr awgrymiadau hyn yw:

- Cynnal cryfder y BBC gyda chyllid i ddarparu ei gwasanaethau craidd ar y llwyfannau digidol er mwyn parhau i fod yn ganolog i'r system gwasanaeth cyhoeddus

- Datblygu ail sefydliad gydag amcanion dibenion cyhoeddus clir a model ariannol gynaliadwy er mwyn sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang

27. Yn benodol ar gyfer y gwledydd datganoledig, daeth Ofcom i'r casgliad:

*Credwn y dylai'r llywodraeth gynllunio nawr i sicrhau cyflenwad o newyddion o ansawdd uchel ochr yn ochr â'r BBC yn y gwledydd datganoledig ... gallai hyn fod yn seiliedig ar gonsortia newyddion wedi'i gyllido'n annibynnol*[21]

28. Eglurodd Ofcom sut y gallai hyn weithio:

*…funding would be made available to whatever the consortium might be. It could potentially be made available on a contestable basis…and some kind of panel would be established to view bids from potential consortia, put together from existing players in the Welsh industry, or new players, and that could be existing television groups, regional newspapers or other potential providers of news in that area.*

*The premise would be that the consortium would be commissioned to provide news programming that would probably be broadcast as part of the existing channel 3 licence in Wales or the relative region or, alternatively, on the second public service broadcaster licence, although our preference would be the channel 3 licence. So, effectively, ITV would provide a window, for which this consortium would provide independently funded programming*[22]

29. Costau darparwr o'r fath ar gyfer Cymru fyddai tua £4 miliwn - £8 miliwn ar gyfer newyddion rhanbarthol a darpariaeth rhaglenni eraill y tu hwnt i'r ffigur hwnnw.[23]

30. Ymatebodd S4C i'r ymgynghoriad hwn drwy gynnig ateb i gynnal lluosogrwydd newyddion drwy ariannu darpariaeth newyddion yn Saesneg:

*The proposal is that S4C would be responsible for producing a tender and for awarding a contract based on that tender to a company to provide an English language news service to be broadcast on ITV Wales*[24]

---

[21] Ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Rhoi Gwylwyr yn Gyntaf
[22] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09
[23] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09
[24] S4C – Iona Jones, Prif Weithredwr – tystiolaeth lafar 12.03.09

31. Roedd ITV yn glir ei bod yn cefnogi hyn:

*With regard to making slots available, we have said, in relation to news, that if a funding solution is found, we would make slots available for a third-party provider, so long as provisions relating to quality and conformity with the ITV brand are met, in order to reach our traditional audience sets*[25]

32. Er nad oedd manylion cynnig S4C ar gael i ni, clywsom y byddai cytundeb o'r fath yn cynnwys cymorth pellach:

*It is possible to share 'back office facilities' and we are quite happy to discuss that…we are aware of the economic situation, of our own budget, of other people's budgets and of the need to be careful with public money, so every opportunity will be sought to look after the money involved*[26]

33. Aeth S4C ymlaen i egluro:

*There will be elements of funding, and they will be for others to identify—Government, in particular—but, taken in the round, I think that we have identified a solution that is cost-effective, practical and can be implemented as soon as the need becomes pressing to an issue that we have all been trying to resolve over some length of time*[27]

34. Rhoddodd S4C sicrwydd i ni hefyd pe bai ei chynnig yn cael ei dderbyn, na fyddai'n fygythiad o gwbl i'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddi ar hyn o bryd ac na fyddai'n effeithio ar ei chylch gwaith craidd:

*This would be a new service. It would be answerable and accountable in the same way as we are accountable to Parliament and others for the Welsh-language service. The same mechanisms would apply but I am determined that, as far as I am concerned and the authority is concerned, the question does not arise. The Welsh-language service is there. This is something new; it is a response to a request from Ofcom for creative thinking*[28]

35. Croesawyd cefnogaeth Awdurdod S4C dros gynnal lluosogrwydd ar ITV Cymru ond nid ydym o'r farn mai'r ffordd orau o wneud hynny fyddai drwy gael staff comisiynu S4C yn comisiynu rhaglenni Saesneg. Yn wir, credwn y byddai cam felly yn lleihau lluosogrwydd comisiynu rhaglenni ledled darlledu yng Nghymru ymhellach. Ymhelaethir ar y gred hon yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn wrth argymell y byddai Comisiwn Cyfryngau Cymru yn cyflawni'r swyddogaeth hon.

---

[25] ITV – Mike Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon – tystiolaeth lafar 26.03.09
[26] S4C – John Walter Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C – tystiolaeth lafar 12.03.09
[27] S4C – Iona Jones, Prif Weithredwr – tystiolaeth lafar 12.03.09
[28] S4C – John Walter Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C – tystiolaeth lafar 12.03.09

### *Partneriaeth rhwng y BBC ac ITV*

36. Mae'r BBC wedi cynnig rhannu rhai o'i chyfleusterau casglu newyddion gydag ITV er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd:

*…there is an emerging plan about sharing certain kinds of news rushes—certain pictures. However, this would be restricted to two generic news pictures for a story about, say, a car crash or for diary items. It will be done very much with the view that the other news provider in Wales or elsewhere in the UK would still have a completely separate editorial brain, a different running order, its own crews and ability to cover certain key stories, top stories, exclusive stories and so forth. In the context of news internationally, this is very familiar* [29]

37. Croesawodd ITV y cynigion hyn ond nid oedd yn hyderus o ran eu heffaith:

*[on collaborating with the BBC] by 2016 it could save £7.1 million across the ITV licences, there would be no saving over the next couple of years and in the first couple of years of partnership, 2011 and 2012, it would save £1 million to £2 million…our conclusion at the end of it is that, on its own, it delivers too little and delivers it too late to save ITV regional news on ITV1 in itself…the partnership between ITV and the BBC, whilst extremely welcome and which has future possibilities, is insufficient to meet the challenge* [30]

38. Er ei bod yn amlwg nad yw'r bartneriaeth hon yn ateb i'r argyfwng, cytunwn ag ITV ei bod yn ddefnyddiol fel rhan o ateb.

### *Casgliadau llywodraeth y DU hyd yn hyn*

39. O ran darparu newyddion rhanbarthol y tu hwnt i wasanaethau'r BBC ar gyfer cynulleidfaoedd, mae adroddiad interim *Prydain Ddigidol* yn awgrymu cynigion a allai gynnig atebion. Yn arbennig[31]:

- **Partneriaeth rhwng y BBC ac ITV** er mwyn cynorthwyo i gynnal gwasanaeth ITV yw un awgrym addawol, fodd bynnag, er y gwyddom erbyn hyn fod partneriaeth yn ddefnyddiol, nid yw hynny'n ateb y broblem

- **Consortia newyddion a gaiff eu cyllido'n annibynnol –** gan gynnwys cynnig lle yn amserlen ITV i ddarparwr newyddion a gaiff arian cystadleuol ac a allai gynnwys nifer o ddarparwyr newyddion lleol megis y Press Association, neu ddarparwyr eraill. Mae cynnig S4C yn gweddu i'r cynnig hwn ac awgrymir y gallai fod yn sail i raglen beilot yng Nghymru

---

[29] BBC – Mark Thompson, Cyfarwyddwr Cyffredinol – tystiolaeth lafar 12.03.09
[30] ITV – Mike Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon – tystiolaeth lafar 26.03.09
[31] Prydain Ddigidol – yr adroddiad interim, Ionawr 2009

40. Soniodd yr Arglwydd Carter wrthym ei fod yn cymeradwyo cynnig S4C:

*We welcomed S4C's proposal because it seemed to be one of the first ideas from an existing institution to do something outwith its usual way of working*[32]

41. Er ein bod yn croesawu ateb i luosogrwydd newyddion yng Nghymru, dim ond rhan o'r broblem y byddai hyn yn ei ddatrys. Esboniodd Ofcom ei farn ar ddarpariaeth rhaglenni eraill:

*The research that we undertook across the UK, including in Wales, highlighted that the area of greatest importance in terms of the provision of choice beyond the BBC was news provision…We strongly believe that plurality and choice of content in other areas, beyond news, is also important…it would be disappointing if we were only able to sustain plurality in news provision, because the aim and goal is to sustain plurality beyond the BBC if we can*[33]

42. Mae tystiolaeth Ofcom ar gyfer blaenoriaethu darpariaeth newyddion yn seiliedig yn bennaf ar ymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd fel rhan o'i adolygiad cyntaf i ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2008 ac a ddangosodd y canlyniadau canlynol:

- Dywedodd 78% o'r ymatebwyr ledled y DU fod 'darparu newyddion o ansawdd da yn fy ardal i yn bwysig'

- Dywedodd 61% yr un peth am 'raglenni o ansawdd da am fy ngwlad/rhanbarth' - 5% yn fwy nag ar gyfer 'operâu sebon neu ddramâu o ansawdd uchel a wneir yn y DU

- Er bod 91% o'r ymatebwyr o Gymru o'r farn ei bod yn bwysig cael newyddion am Gymru ar fwy nag un sianel, roedd 71% o'r farn y dylai hyn fod yn wir am raglenni eraill ar gyfer Cymru

43. Credwn, felly, y gallai'r cynnig i ddatblygu consortia newyddion a gaiff gyllid annibynnol gael ei ddatblygu ac y dylai hyn ddigwydd ymhellach er mwyn cynnwys comisiynu rhaglenni eraill nad ydynt yn rhaglenni newyddion:

*there is no reason why [the model] could not be extended to non-news content, so that you could broaden the remit of such a proposal to begin to commission current affairs programmes, documentaries and other programming of social and cultural value in Wales. That would require additional funding but it would be doable within the existing system*[34]

---

[32] Yr Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu – tystiolaeth lafar 12.03.09
[33] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09
[34] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09

44. Rydym yn pryderu nad yw'r Arglwydd Carter yn cytuno â phwysigrwydd y ddarpariaeth rhaglenni eraill:

*My sense at this stage is that there is strong cross-party support for the argument for plurality in news and current affairs. Candidly, when you stretch beyond that, it gets more challenging*[35]

45. Oherwydd bodolaeth S4C a'i pherthynas uniongyrchol â'r adran sy'n ei noddi, ymddengys bod barn anghywir yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yng ngeiriau'r Arglwydd Carter:

*Wales is in a more advantageous position in this debate than are Scotland and Northern Ireland because of the existence of S4C, advantaged in funding terms and by having a dedicated service, albeit a Welsh-language service*[36]

46. Er gwaetha'r gwahaniaeth hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai Cymru gael ei hystyried fel pe bai mewn sefyllfa gryfach na gweddill y DU gan fod ganddi sector annibynnol effeithiol yng Nghymru, sy'n deillio'n rhannol o greu S4C. Gallai'r sector hwn gynnig fudiannau sylweddol, wrth ystyried pa bynnag fodel a gaiff ei ddatblygu, gan gyflwyno'r posibilrwydd o sicrhau arbedion sylweddol mewn costau. Dylai'r cryfder hwn hefyd fod yn fan cychwyn i argymhellion yr adroddiad hwn.

47. Yn yr hinsawdd ariannu sydd ohoni, dylai'r sector annibynnol gael ei annog i fanteisio ar y cyfle hwn. Gallai creu cyfeisiadau mewn rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill yn y ddwy iaith, can sicrhau arbedion ariannol sylweddol.

48. Dymuna'r Pwyllgor bwysleisio pa mor bwysig yw rhaglenni newyddion a gwybodaeth iddo. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni materion cyfoes, rhaglenni gwleidyddol a rhaglenni defnyddwyr. Fodd bynnag, ni chredwn y gall hynny fod yn adlewyrchiad digonol o gyfoeth bywyd yng Nghymru. Mae rhaglenni ITV Cymru a'r effaith ar y gynulleidfa yn dangos bod teyrngarwch a chefnogaeth y gynulleidfa honno yn mynd y tu hwnt i raglenni newyddion, a dyna pam yr argymhellwn y dylid anelu at gynnal lluosogrwydd ar draws yr holl ystod o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym hefyd yn argymell creu Comisiwn Cyfryngau i Gymru. Caiff hyn ei ddisgrifio isod.

***Argymhelliad 1***

Yn ei hadroddiad *Prydain Ddigidol* a gyhoeddir cyn bo hir, argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Llywodraeth y DU i sicrhau lluosogrwydd mewn darlledu yn Saesneg yng Nghymru er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Comisiwn Cyfryngau Cymru, a gwarantu'r lefel bresennol o gynnyrch

---

[35] Yr Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu – tystiolaeth lafar 12.03.09

[36] Yr Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu – tystiolaeth lafar 12.03.09

rhaglenni ar ITV.

***Sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru***

*…we heard and responded to the proposals for a specific fund for Wales that could source non-news as well as news content and that appeared in our final report; it is something that we suggested to Government that it consider. I think that proposal has merit*[37]

49. Mae tystiolaeth gref yn dangos mai'r ffordd orau o sicrhau lluosogrwydd yng Nghymru fyddai drwy 'Gomisiwyn Cyfryngau Cymru'. Esblygiad o gynnig S4C yw hyn, mewn gwirionedd, i gynnwys rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion ac ymestyn ymhellach na'r cyfryngau darlledu i gynnwys, er enghraifft, cynnwys ar y we a band eang a phapurau newydd.

*[Rydym] yn credu mai rhan o'r ateb fyddai sefydlu comisiwn darlledu yng Nghymru a fyddai'n gyfrifol am gomisiynu rhaglenni—rhaglenni newyddion o bosibl, neu efallai raglenni mwy cyffredinol. Os yw ITV naill ai'n methu â chyflenwi gwasanaeth newyddion neu'n gwrthod gwneud hynny, yr argymhelliad yw y byddai comisiwn o'r fath yn gallu comisiynu gwasanaeth newyddion gan ddarlledwr neu ddarlledwyr annibynnol*[38]

***Argymhelliad 2***

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru i gomisiynu rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill yn wreiddiol i'w darlledu ar ITV a chynnwys pellach ar gyfer gwasanaethau a chyfryngau eraill. Rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer Comisiwn Cyfryngau Cymru yn ein hadroddiad.

50. Nodir manylion gweithrediadau Comisiwn Cyfryngau Cymru isod:

*Cyfrifoldebau a swyddogaethau*

51. Dylai Comisiwn Cyfryngau Cymru fod yn gyfrifol am y canlynol:

- **Datblygu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn Saesneg y tu hwnt i'r BBC yng Nghymru**, yn bennaf ceisio comisiynu cynnwys yn bennaf gan gynhyrchwyr annibynnol, gweithio gyda darlledwyr neu ddarparwyr cludiad i gynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill

- **Gweithio'n greadigol ar draws y cyfryngau i sicrhau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus** comisiynu cynnwys i'w ddarlledu yn ystod oriau brig ar adegau a drafodir gydag ITV. Gallai hyn hefyd gynnwys comisiynu cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus o radio

[37] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09
[38] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 10.12.08

cymunedol a masnachol, y sectorau papurau newydd, Teledu Protocol Rhyngrwyd (IPTV) a darparwyr cynnwys band llydan

- Adolygu opsiynau ar gyfer creu sianel ddigidol i Gymru

*Strwythur a llywodraethu*

52. Croesewir cynnig S4C am gymorth 'swyddfa gefn' i gynnal rhaglen beilot ar gyfer comisiynu newyddion yn Saesneg ar gyfer ITV yng Nghymru a gallai hyn fod yn gnewyllun i Gomisiwn Cyfryngau Cymru.

53. Byddai'n bosibl i'r BBC ddarparu gwasanaethau cymorth tebyg. Fodd bynnag, gan mai'r nod yw sicrhau lluosogrwydd darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gystadlu â'r BBC, efallai y byddai'n fwy priodol i Gomisiwn Cyfryngau Cymru gydweithio mwy ag S4C.

54. Mae'r bartneriaeth y cytunwyd arni'n ddiweddar rhwng y BBC ac ITV, a'r bartneriaeth strategol rhwng S4C a'r BBC, hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddarlledwyr gydweithio â Chomisiwn Cyfryngau Cymru i sicrhau y caiff adnoddau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu defnyddio'n greadigol ac yn gydlynol.

55. Gan nad yw darlledu wedi datganoli, mae'n amlwg fod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ran i'w chwarae wrth greu Comisiwn Cyfryngau Cymru a noddi'r Comisiwn hwnnw. Rydym yn argymell felly ei fod yn gorff penodedig, a gaiff ei gyd-greu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'i fod yn atebol yn ariannol i'r ddwy lywodraeth.

56. Dylai Comisiwn Cyfryngau Cymru hefyd:

- fod yn rhydd o ymyrraeth wleidyddol wrth gomisiynu cynnwys

- ymgymryd â rôl panel cynghori Ofcom ar gyfer Cymru, a dylai gynrychioli barn a buddiannau gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr cynnwys yng Nghymru

- cynnwys dim mwy na 4 aelod i'w penodi drwy broses annibynnol. Dylai S4C gael ei chynrychioli oherwydd ei rôl gynhaliol wrth greu a chynnal y corff

57. Dylai Comisiwn Cyfryngau Cymru gyflogi'r lleiafswm o staff, cydweithio'n agos â sefydliadau cyfryngau eraill a sefydliadau llywodraethol fel Cyllid Cymru, er mwyn gwella ei ddealltwriaeth o'r farchnad yng Nghymru ac ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer comisiynu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

*Cyllido*

*…we should at least be aiming to fill that gap of £25 million to £30 million per annum as the probable loss over the next few years through BBC cutbacks and the loss of ITV programming in Wales*[39]

58. Ceir cytundeb am y swm y byddai ei angen ar Gomisiwn Cyfryngau Cymru i ddarparu gwasanaeth newyddion a rhaglenni eraill. Cawsom esboniad gan Ofcom o'r rhesymeg y tu ôl i'r amcangyfrif o £25 miliwn i £30 miliwn:

*Looking back to when ITV provided a wide range of programming in competition with the BBC's non-news offering, the high water mark of that provision would have been sometime around 1999…at that time it would have been spending in the region of £20 million on that…which at today's cost would represent the highest ever investment in non-news content in Wales*[40]

59. Rydym yn cytuno fod hyn yn amcangyfrif synhwyrol o'r costau ar gyfer cronfa Comisiwn Cyfryngau Cymru.

60. Y cwestiwn allweddol yw – o ble y daw'r arian? Dywed yr Arglwydd Carter nad oes unrhyw addewid ariannol wedi cael ei wneud i Gomisiwn Cyfryngau Cymru gyflawni ei waith:

*All of these questions circle around the same issue. I cannot give you an answer on how realistic a Welsh media commission might be, other than to say that we live in a world of fewer resources, not more. Part of the reason why these questions are being asked, is because the market is providing less money. In a sense, it is a double jeopardy on resources—money is not coming from the market and therefore, it would have to come from some other form of public intervention at a time when there are significant strains on public intervention. The sharpness of the competing resources is challenging*[41]

61. Rydym yn cydnabod y gallai'r cyllid a geisiwn gael ei ystyried yn uchelgeisiol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y gwariant cyffredinol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ledled y DU, mae'n fach iawn. Ar hyn o bryd, cyfanswm cyllid y gwasanaeth cyhoeddus ym maes darlledu yn y DU yw £3.325 biliwn, (gan gynnwys £2.7 biliwn i ariannu'r BBC; a £180 miliwn i ariannu ITV)[42].

62. Credwn y byddai cymorth S4C i gynnal Comisiwn Cyfryngau Cymru hefyd yn golygu y byddai'n bosibl cadw'r costau'n isel.

---

[39] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 10.12.08
[40] Ofcom – Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Cymru – tystiolaeth lafar 26.03.09
[41] Yr Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu – tystiolaeth lafar 12.03.09
[42] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/psb2_phase2/psb2_phase2.pdf

63. Argymhellwn y dylai'r cyllid gael ei ddyrannu i Gomisiwn Cyfryngau Cymru yn bennaf gan lywodraeth y DU, ond hefyd yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nodir y ffynonellau ariannu posibl yn adroddiad terfynol Ofcom ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus[43] ac yn yr adroddiad interim *Prydain Ddigidol*[44], a allai, yn unigol neu'n gyfunol sicrhau'r swm sydd ei angen i sicrhau cyllid digonol ar gyfer comisiynu darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus ar ITV a gwasanaethau eraill yng Nghymru. Y rhain yw:

- 'gweddillion newid i ddigidol' – y cyllid presennol a roddwyd i'r BBC i helpu pobl hŷn a phobl anabl baratoi at y newid i ddigidol. Mae'r swm hwn yn cyfateb i tua £130 miliwn y flwyddyn
- treth ar y rhannau o'r diwydiant nad ydynt yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus
- asedion rheoleiddio presennol megis sbectrwm darlledu
- cyllid posibl gan y llywodraethau datganoledig
- cyllid gan y loteri genedlaethol

64. Rydym yn cydnabod bod cyllidebau mawr eisoes o fewn y maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru – yn BBC Cymru (07/08: teledu Saesneg i Gymru - £24.4 miliwn; rhaglenni Cymraeg i S4C - £22.5 miliwn[45]; Comisiynau gan BBC Cymru ar gyfer rhwydwaith y BBC - £43 miliwn) ac S4C, gyda'i chyllideb o £95 miliwn.

65. Hoffem fod yn glir iawn nad yw'n fwriad gan y Pwyllgor leihau incwm S4C a dwyn oddi ar un i roi i'r llall er mwyn darparu gwasanaethau yn Saesneg. Fodd bynnag, mae'r anghydbwysedd yng Nghymru rhwng cyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus Saesneg a darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg mewn perygl o ddirywio ymhellach ac yn peri pryder i ni.

66. Dylai Comisiwn Cyfryngau Cymru chwilio am gyllid allanol drwy ddenu gwerth ariannol a gwerth 'mewn nwyddau' gan bartneriaid eraill, gan gynnwys ITV ac S4C. Dylai hefyd allu ystyried cyllido cynyrchiadau ar y cyd a chyllid Ewropeaidd.

67. Dylai'r cyllid fod yn gystadleuol yn ei ddarpariaeth, sef gallai fod am ystod o 'ddulliau darparu' gan gynnwys teledu, radio, ar-lein, papurau newydd, band eang ac aml gyfrwng (ac am fwy nag un fel arfer).

68. Er ei bod yn glir na fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arian craidd i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, roedd yn gadarnhaol yn ei sylwadau o ran ychwanegu gwerth at wasanaeth a gaiff arian craidd:

---

43 http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/psb2_phase2/statement/psb2statement.pdf
44 http://www.culture.gov.uk/images/publications/digital_britain_interimreportjan09.pdf
45 http://www.bbc.co.uk/wales/audiencecouncil/sites/content/pages/annualreview_2008.shtml

*Broadcasting is not a devolved issue, and as such, it would be wrong for the Welsh Assembly Government somehow to take on the role of funding such a commission. However, if core funding was available, it would be right to look at how we could add value to that*[46]

69. Credwn fod ffynhonnell gyllido ychwanegol y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hystyried, fel y soniodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth:

*… it would be wrong for the Government in Wales to take on the core funding of such a service but after, that, there are all sorts of ideas. For example, through the Arts Council of Wales, the Government in Wales funds the Film Agency for Wales. The work produced by it might provide part of the service of a channel in Wales if such a channel was to be established. Therefore, there are ways in which a Government could perhaps complement programming on the channel in Wales*[47]

70. Mae mentrau'r cyfryngau a gaiff eu cyllido ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys:

- y gronfa radio cymunedol - £100,000 eleni[48]
- y Gronfa Eiddo Deallusol - £8 miliwn[49]
- newyddiaduraeth Gymraeg – £200,000 yn flynyddol i Golwg Newydd ar gyfer 08-11 a £173,000 yn flynyddol drwy Gyngor Llyfrau Cymru ar gyhoeddiadau newyddion a materion cyfoes cyfrwng Cymraeg[50]

71. Hoffem weld y ffrydiau cyllido hyn yn cael eu hadolygu i nodi'r cyllid posibl y gellid ei gyfrannu tuag at Gomisiwn Cyfryngau Cymru.

***Argymhelliad 3***

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol brys o'i gweithgarwch ym maes y diwydiannau creadigol a diwydiant clyweledol, gan gynnwys rôl Cronfa Eiddo Deallusol Cyllid Cymru, yr Asiantaeth Ffilmiau a'i modd o ariannu newyddiaduraeth Gymraeg a radio cymunedol Gymraeg ac ystyried y modd y gallai'r gweithgareddau hyn gynorthwyo a chefnogi Comisiwn Cyfryngau Cymru.

## Portread o Gymru ar y rhwydwaith

*…there is the question of whether the second institution could play a greater role, not only in commissioning spend, but in the portrayal and representation of the nations*[51]

---

46 Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 10.12.08
47 Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth lafar 10.12.08
48 http://wales.gov.uk/news/topic/culture/2009/090407radio/?skip=1&lang=cy
49 http://www.financewales.co.uk/what_we_do/how_we_invest/creative_projects.aspx?lang=cy-gb
50 Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor: BSC(3)-03-09: Papur 1

72. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth adroddiad interim *Prydain Ddigidol* o bwysigrwydd y rôl a gaiff ei chwarae gan gwotâu cynhyrchu rhanbarthol a chwotâu cynhyrchu annibynnol fel rhan hanfodol o'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

73. Rydym yn falch fod y BBC wedi ymrwymo i gyrraedd targedau ar gyfer comisiynu rhaglenni o Gymru i'w dangos ar rwydweithiau teledu'r BBC:

*The BBC quota is 17 per cent throughout the nations. It has not tied to that the percentage of the population of Wales, Scotland and Northern Ireland, but the unwritten understanding is that the 17 per cent should be distributed along the lines of the distribution of population between the three nations*[52]

74. Caiff yr 17 y cant ei rannu'n fras fel a ganlyn:

- Cymru – 5%
- Yr Alban – 9%
- Gogledd Iwerddon – 3%

75. Byddai 5% o gynnyrch rhwydwaith cymwys a gomisiynir o Gymru yn golygu cyflawni tua £50 miliwn o raglenni erbyn 2012[53]. Gallai'r BBC gyrraedd y targed hwn drwy symud 'Casualty' o Fryste i Gaerdydd, ac mae hyn yn opsiwn sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd:

*What we are principally looking at now is the finance case, the capital hit and the capital profile of the various options for the future of Casualty, but the underlying logic of Casualty joining a growing and very successful body of network drama already being made by BBC Wales is very strong*[54]

76. Mae'r penderfyniad hwn i gydnabod a datblygu BBC Cymru fel prif ganolfan cynhyrchu drama yn deyrnged i staff a rheolwyr BBC Cymru yn ogystal ag adlewyrchu parodrwydd pellach y BBC i fynd i'r afael â'r ddyletswydd sydd ganddi i ddatganoli gwaith cynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith ledled y DU. Mae hyn yn ddatblygiad sylweddol ac rydym yn estyn croeso llawn iddo.

77. Fodd bynnag, rydym yn annog y BBC i sicrhau nad dim ond cyfresi drama amlwg fel *Doctor Who*, *Torchwood*, a *Casualty* a gaiff eu cynhyrchu yng Nghymru, ond y caiff BBC Cymru'r cyfle i ennill comisiynau ar gyfer rhaglenni sy'n portreadu Cymru. Felly rydym yn argymell fod y BBC yn adolygu'r ffordd y gallai BBC Cymru gydweithio â chwmnïau annibynnol yn well er mwyn sicrhau mwy o gomisiynau ar gyfer y rhwydwaith.

78. Mae record ITV o ran comisiynu cynyrchiadau rhwydwaith yn wael. Mae'n cyfaddef ei hun nad yw wedi comisiynu rhaglen o Gymru ers 2005. Pan

---

[51] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09
[52] Ofcom – Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Cymru – tystiolaeth lafar 26.03.09
[53] BBC – Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru – tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Darlledu 9.06.08
[54] BBC – Mark Thompson, Cyfarwyddwr Cyffredinol – tystiolaeth lafar 12.03.09

gafodd Mr Jermey ei holi gan Gadeirydd Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol am y nifer o gomisiynau a roddwyd i Gymru dros y tair neu bedair blynedd diwethaf, atebodd Mr Jermey:

*Very few. In the past two years for ITV, I do not believe there has been one*[55]

79. Er ein bod yn deall sefyllfa ariannol bresennol ITV, nid yw ITV erioed wedi dangos ymrwymiad i gomisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr o Gymru, hyd yn oed mewn cyfnodau o ddigonedd. Felly, er bod goblygiadau gwasanaeth cyhoeddus ar ITV, hoffem weld Ofcom yn ei dwyn i gyfrif am roi 5% o gynnyrch rhwydwaith cymwys i Gymru ac am y portread o Gymru ar ddramâu rhwydwaith a rhaglenni eraill nad ydynt yn rhaglenni newyddion.

80. Nid ydym yn credu ei bod yn afresymol i ITV wneud mwy o ymdrech i gomisiynu cwmnïau annibynnol o Gymru, na sicrhau mwy o bortread o Gymru ar wasanaethau ITV.

81. Mae Channel 4 yn gwario llai nag 1% o'i chyllid ar gomisiynau gan gwmnïau annibynnol o Gymru[56]. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai Channel 4 rannu targed rhwydwaith y BBC o 5% o raglenni cymwys i gael eu comisiynu o Gymru:

*…we have said that there should be a greater contribution to commissions from each of the nations. I am conscious that, in the PSB review, we have set out a quota for Channel 4 at 3 per cent of commissions from the nations. That is low and we acknowledge that*[57]

82. Credwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio'n agos â'r darlledwyr i ganfod ac annog talent yng Nghymru a datblygu'r maes cynhyrchu annibynnol.

83. Os oes ail ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus i gael ei greu o'r newydd, credwn y dylai fabwysiadu'r un gwotâu cynhyrchu ar gyfer y rhwydweithiau ar gyfer y gwledydd â'r cwotâu ar gyfer y BBC, ac y dylai o leiaf 5% o'r rhaglenni a gomisiynir ddod o Gymru.

***Argymhelliad 4***

Argymhellwn fod Ofcom yn mynnu bod y prif ddarparwyr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cadw at eu targedau sylfaenol o gynnyrch o Gymru ar y rhwydwaith, sef 5% o'r cynnyrch cymhwysol.

Dylai Ofcom, Llywodraeth y Cynulliad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fonitro'r cynnydd tuag at y nod hwn.

---

[55] ITV – Mike Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon – tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Darlledu, 2008
[56] Ofcom Television Production Sector Review 10.01.06
[57] Ofcom – Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth – tystiolaeth lafar 26.03.09

**_Argymhelliad 5_**

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu asesiad blynyddol o'r portread o Gymru ar gynnyrch rhwydwaith pob un o'r darlledwyr sy'n darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC, ITV, Channel 4, S4C a Five), gan gynnwys y ddarpariaeth newyddion.

## Trwydded ddarlledu yng Nghymru

84. Rydym yn croesawu cefnogaeth Ofcom yn ei ail ddogfen adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, y dylid creu trwydded ar wahân i Gymru, y dylai rhan Gorllewin Lloegr y drwydded bresennol gael ei hymgorffori yn nhrwydded y West Country. Nid credwn fod trwydded ar y cyd yn adlewyrchiad o'r newidiadau gwleidyddol, cyfansoddiadol na chymdeithasol sylweddol sydd wedi digwydd yng Nghymru dros y deng mlynedd diwethaf, a'i bod bellach yn anacroniaeth. Adlewyrchwyd y farn hon gan yr Arglwydd Carter:

*The traditional regional network for the broadcasters is not a regional network or indeed a national network that you and I would understand; it is largely a function of the geographic location of transmitters which, in truth, is a function of engineering practicality rather than cultural identity or relevance*[58]

85. Cytunwn y dylai'r drwydded gael ei gwahanu, yn arbennig os bydd ITV yn rhoi'r gorau i'w goblygiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

**_Argymhelliad 6_**

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog Llywodraeth y DU i adolygu'r Ddeddf Darlledu er mwyn llunio un drwydded fasnachol i Gymru.

*Trwyddedau radio cymunedol*

86. Mae chwe gorsaf radio cymunedol yng Nghymru wedi cael cyllid[59]:

- Afan FM yng Nghastell-nedd Port Talbot
- BRFM ym Mlaenau Gwent
- Bro FM ym Mro Morgannwg
- Calon FM yn Wrecsam
- GTFM ym Mhontypridd
- Tudno FM yn Llandudno

[58] Yr Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu – tystiolaeth lafar 12.03.09
[59] http://wales.gov.uk/news/topic/culture/2008/081028communityradio/?skip=1&lang=cy

87. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyfarnu trwyddedau i'r gorsafoedd hyn ar sail yr ymrwymiad a ddangoswyd ganddynt i'w cymunedau mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys annog ffyrdd iach o fyw, hybu hyfforddiant a menter gymdeithasol ar gyfer pobl a gaiff eu hallgau a phobl hawdd eu niweidio a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol[60].

88. Fodd bynnag, mae cwmnïau radio masnachol yn pryderu y gallai radio cymunedol fod yn gystadleuaeth nad oes groeso iddi, fel yr esboniodd yr Arglwydd Carter:

*The received view is that, if you give community radio too much commercial freedom, you will suck too much money out of commercial radio, which is already struggling for all sorts of reasons. If you want, at the same time, to accelerate the transition of traditional radio into digital radio—which involves a double transmission cost, because you have to pay for DAB transmission as well as FM transmission—you have to think about how you do that. It is quite interrelated. However, community radio needs to be a big part of the mix*[61]

89. Credwn y gall y sector Radio Cymunedol gynnig yr agwedd 'leol' sydd ar goll o fyd radio masnachol, a'i bod hefyd yn darparu buddiannau pwysig o ran llythrennedd y cyfryngau. Felly, rydym yn croesawu adolygiad yr Arglwydd Carter o drwyddedu radio cymunedol a radio masnachol lleol a chredwn ei bod yn bosibl cysoni trwyddedau radio cymunedol trwyddedau Trwydded Gwasanaeth Cyfun (RSL) a thrwyddedau radio masnachol lleol yng Nghymru.

90. Credwn y dylid ystyried datganoli cyfrifoldeb dros drwyddedu gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru i sefydliad yng Nghymru, megis panel cynghori Ofcom ar gyfer Cymru.

***Argymhelliad 7***

Argymhellwn fod Gweinidogion Cymru, mewn cydweithrediad ag Ofcom, yn adolygu'r posibilrwydd o ddatganoli'r dyraniad o drwyddedau radio cymunedol yng Nghymru.

## Radio DAB yng Nghymru

91. Yng Nghymru, nid yw radio FM wedi cyrraedd pawb, ac yn ôl panel cynghori Ofcom ar gyfer Cymru, rhaid i rai gwrandawyr ddibynnu ar AM. Prin fod FM yn cyrraedd 60% o Gymru[62]. O ganlyniad, nid yw'r gwrandawyr hyn yn cael ansawdd y sain a ddarperir drwy ddarlledu ar FM.

---

[60] http://wales.gov.uk/news/topic/culture/2009/090407radio/?skip=1&lang=cy
[61] Yr Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu – tystiolaeth lafar 12.03.09
[62] http://www.culture.gov.uk/images/publications/Ofcom_ACforWales_DBIRResponse.pdf

92. Dim ond dau drosglwyddydd aml bleth masnachol lleol sy'n gwasanaethu ardaloedd Caerdydd/Casnewydd ac Abertawe sy'n cario Radio Wales a Radio Cymru ar DAB.

93. Yn yr adroddiad interim *Prydain Ddigidol* amlinella llywodraeth y DU gynlluniau i gyflwyno DAB yn gyffredinol a symud radio i DAB yn gyfan gwbl, ond mae'n cydnabod cyfyngiadau trosglwyddo presennol DAB:

*…we have taken the view in the interim report that there should be a dedicated transmission network for radio in digital format, however else you can get it digitally – whether on your computer, your mobile phone or, it is to be hoped, in your car. The DAB transmission capability needs to increase to reach the level of FM coverage, which means way beyond 90 per cent, particularly if we want car manufacturers to come on board.*[63]

94. Ni ddylai'r cyrhaeddiad yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau Cymru fod yn is na'r hyn ydyw ar gyfer gweddill y DU. Dylai'r meini prawf a gaiff eu hargymell ar gyfer symud radio i DAB gael eu cynllunio mewn modd a fydd yn sicrhau na fydd Cymru o dan anfantais yn y broses honno. Er ei bod yn bosibl bodloni'r meini prawf o ran y DU, mae'n bosibl y bydd DAB yn cyrraedd llawer llai o bobl yng Nghymru, ac yn arbennig o ran gwasanaethau o Gymru. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ellir cyfiawnhau diffodd darllediadau analog.

95. Yn y gorffennol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy ei Is-bwyllgor Darlledu wedi gofyn am sicrwydd na fydd y newid i ddigidol yn digwydd heb warantu y bydd prif wasanaethau radio'r BBC - Radio Cymru a Radio Wales yn cyrraedd o leiaf 90% o Gymru drwy DAB ledled Cymru.

***Argymhelliad 8***

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio ag Ofcom a Llywodraeth y DU i sicrhau bod DAB ar gael ar draws 90% o Gymru gyfan, a bod gwasanaethau BBC Cymru ar gael ar DAB ar draws 90% o Gymru cyn i'r signal analog gael ei ddiffodd.

## Datblygu'r cyfryngau yng Nghymru

*Un o'r ystyriaethau i BBC Cymru yw'r cynnydd ym maes drama ac, o ganlyniad, yr awydd i greu'r hyn yr ydym yn ei alw yn bentref drama i sicrhau bod ein cyfresi i gyd yn cael eu cynhyrchu yn yr un man*[64].

96. Rydym yn croesawu'r cynnig hwn gan y BBC i ddatblygu'r cysyniad o Brifddinas Cyfryngau yng Nghaerdydd. Esboniodd Mark Thompson,

[63] Yr Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu – tystiolaeth lafar 12.03.09
[64] BBC – Menna Richards, Rheolwr, BBC Cymru – tystiolaeth lafar 12.03.09

Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC sut y byddai Prifddinas Cyfryngau yn datblygu:

*The BBC's role is not necessarily to be the biggest spender on the site, but to be a landmark first anchor tenant around which other people gather. That has been our experience in Pacific Quay, where the Scottish company STV has moved in next door to us and quite a few independent production companies are moving in*[65]

97. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo hyn drwy hwyluso trafodaethau rhwng y darlledwyr a chynhyrchwyr annibynnol, gweithio gyda'r BBC i ddatblygu canolbwynt creadigol ar gyfer y cyfryngau yng Nghaerdydd.

***Argymhelliad 9***

Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio â darlledwyr a chynhyrchwyr annibynnol i weithio gyda'r BBC i ddatblygu canolbwynt creadigol ar gyfer y cyfryngau - 'Canolfan Cyfryngau'.

[65] BBC – Mark Thompson, Cyfarwyddwr Cyffredinol – tystiolaeth lafar 12.03.09

**Atodiad 1**

**Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn bersonol**

| **Cyflwynydd** | **Sefydliad** | **Cyfeirnod i Baragraff y Trawsgrifiad** |
|---|---|---|
| **10 Rhagfyr 2008 – Yr Is-bwyllgor Darlledu** | | |
| • Alun Ffred Jones, Y Gweinidog dros Dreftadaeth<br>• John Howells, Cyfarwyddwr Diwylliant | Llywodraeth Cynulliad Cymru | 6-94 |
| • Stewart Purvis, Partner, Cynnwys a Safonau<br>• Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Cymru<br>• Sue Balsom, Aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom ar gyfer Cymru | Ofcom | 96-179 |
| **12 Mawrth 2009 – Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** | | |
| • Iona Jones, Prif Weithredwr<br>• John Walter Jones, Cadeirydd, Awdurdod S4C | S4C | 7-71 |
| • Mark Thompson, Cyfarwyddwr Cyffredinol<br>• Menna Richards, Rheolwr, BBC Cymru<br>• Janet Lewis Jones, Ymddiriedolwr Cenedlaethol ar gyfer Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC | BBC | 74-159 |

| | | |
|---|---|---|
| • Yr Arglwydd Stephen Carter CBE, Y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu<br>• Jon Zeff, Cyfarwyddwr Cyfryngau | Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio | 162-227 |
| **26 Mawrth 2009 – Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** | | |
| • Jonathan Thompson, Cyfarwyddwr Strategaeth<br>• Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Cymru<br>• Sue Balsom, Aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom ar gyfer Cymru | Ofcom | 5-66 |
| • Michael Jermey, Cyfarwyddwr Newyddion, Materion Cyfoes a Chwaraeon<br>• Elis Owen, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, ITV Cymru | ITV | 153-238 |

## Atodiad 2

## Cofnod o bapurau'r Pwyllgor

| Dyddiad | Enw'r Sefydliad | Rhif Cyfeirnod y Papur |
|---|---|---|
| **Yr Is-bwyllgor Darlledu** | | |
| 10 Rhagfyr 2008 | Llywodraeth Cynulliad Cymru | BSC(3)-02-08 (p1)<br>BSC(3)-02-08 (p2)<br>BSC(3)-02-08 (p3) |
| **Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** | | |
| 12 Mawrth 2009 | S4C | CC(3)-05-09 (p2) |
| 12 Mawrth 2009 | BBC | CC(3)-05-09 (p3) |
| 12 Mawrth 2009 | Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio | CC(3)-05-09 (p4) |
| 26 Mawrth 2009 | ITV | CC(3)-06-09 (p2) |

**Gellir gweld copïau o'r holl bapurau a'r trawsgrifiadau yn:**
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm?ds=3/2009

## Atodiad 3

## Ymateb yr Is-bwyllgor Darlledu i ymgynghoriad Cam 2 Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

## Cyflwyniad i Ofcom - 3 Rhagfyr 2008

**Mae'r cyflwyniad hwn yn ymateb i'r rhan o ymgynghoriad Ofcom sy'n rhoi sylw i ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.**

### Cyflwyniad

*Yr Is-bwyllgor Darlledu*

1. Sefydlwyd yr Is-bwyllgor Darlledu gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Tachwedd 2008, a hynny er mwyn ymateb i ail adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Cyhoeddwyd yr adolygiad hwnnw'n ddiweddar yn y ddogfen "Preparing for the Digital Future".

2. Cytunodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr is-bwyllgor:

*…cyflwyno adroddiad erbyn 4 Rhagfyr 2008 ar y cynigion a geir yng Ngham 2 o Adolygiad Ofcom i Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a chyflwyno adroddiad o fewn dau fis i adroddiad terfynol Ofcom ar ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Daw'r is-bwyllgor i ben ar ôl yr adroddiad terfynol.*

*Y Pwyllgor Darlledu*

3. Cyflwynodd Pwyllgor Darlledu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad ar ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru ar 16 Gorffennaf 2008. Daeth y pwyllgor i ben ar 18 Gorffennaf 2008.

4. Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi ei ymateb ac wedi mynegi pryder ynghylch dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

### Ymateb yr Is-bwyllgor Darlledu i'r ymgynghoriad

5. Mae'r is-bwyllgor yn ymwybodol bod angen cymryd camau brys o ganlyniad i sefyllfa ariannol bresennol ITV, yn ogystal â'r ffaith y gallai fod angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddeddfu yn y maes hwn mewn cyfnod byr iawn.

6. Mae nifer o gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Darlledu yn berthnasol i'r ddogfen ymgynghori hon, ac mae'r is-bwyllgor yn falch o nodi bod nifer o'r prif argymhellion hefyd yn ymddangos yn nogfen Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

7. Yn benodol, mae’r is-bwyllgor yn cytuno â barn y Pwyllgor Darlledu y dylai Ofcom gynrychioli buddiannau Cymru’n ffurfiol, a hynny drwy gael cynrychiolydd o Gymru ar ei brif fwrdd a thrwy sicrhau ei fod yn cynrychioli safbwyntiau Cymreig yn fwy tryloyw wrth reoleiddio teledu a radio yng Nghymru.

*Modelau manylach ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol*

Mae’r is-bwyllgor yn argymell y canlynol:

- Byddai’r model mwyaf addas ar gyfer y dyfodol yn gyfuniad o’r dull esblygol a’r dull sy’n defnyddio cyllid cystadleuol a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori

- Dylai ITV1 yn benodol barhau i orfod darparu gwasanaeth cyhoeddus tan o leiaf 2014, ac wedi hyn dylid sefydlu masnachfraint ar wahân i Gymru

8. Mae’r is-bwyllgor yn credu y byddai dilyn y dull hwn yn rhoi’r hyblygrwydd i barhau i ddatblygu ac addasu wrth ymateb i anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau ein bod yn symud o’r system bresennol tuag at system fwy lluosog wrth ddarparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol. Rydym yn pryderu nad oes gan Channel 4, yn benodol, hanes o ddarparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru, ac na fydd efallai’n ymwybodol o anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru.

*Y modelau yng ngwledydd a rhanbarthau’r DU*

Mae’r is-bwyllgor yn argymell y canlynol:

- Dylid canfod cyllid ychwanegol er mwyn ariannu a chynnal Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus drwy ddarparwyr eraill ar wahân i’r BBC

- Os yw ITV yn dymuno rhoi’r gorau i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus ac ildio’i thrwydded, dylai’r drwydded ar gyfer sianel 3 yng Nghymru fod ar wahân i’r drwydded ar gyfer sianel 3 yn Lloegr. Dylid hysbysebu’r drwydded hon ar wahân, a dylid darparu gwasanaeth cyhoeddus penodol

9. Mae’r is-bwyllgor yn nodi barn Ofcom yn ei ddogfen ymgynghori y gallai ITV ccc ddymuno rhoi’r gorau i orfod darparu gwasanaeth cyhoeddus naill ai ar unwaith neu yn y tymor canolig.

10. Mae hyn yn peri pryder i’r is-bwyllgor gan fod rhaglenni a gwasanaethau ITV yn ychwanegiad hanfodol at yr ystod a’r amrywiaeth o raglenni sy’n dod o Gymru ac am Gymru. Mae’r is-bwyllgor yn credu nad yw’r BBC yn

ddigon lluosog i allu cynnig amrywiaeth gyfoethog o leisiau a safbwyntiau. Mae'n golygu y byddai'n rhaid i unrhyw lais gydymffurfio â chanllawiau a gofynion golygyddol y BBC, a'r rheini'n seiliedig ar un agenda olygyddol ac o dan arweiniad un prif olygydd.

11. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Darlledu, dywedodd Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru:

*"We recognise the threat to plurality, which is a key issue in Wales, exacerbated by a weak press. The BBC welcomes competition; it is good for Wales, good for the industry. We would prefer to see a continuing role for ITV Wales given its heritage and its ability to deliver significant audience reach."*

12. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Darlledu, dywedodd Ed Richards, Prif Weithredwr Ofcom:

*"We agree that it is a serious concern and that the question of plurality in general is crucial, especially in news and current affairs in Wales. This is also the case in Scotland and Northern Ireland, but there is an even more acute argument in Wales."*

13. Mae gwendid y cyfryngau print a'r sector radio masnachol yng Nghymru yn golygu bod gwylwyr yng Nghymru yn fwy dibynnol ar eu gwasanaethau teledu cenedlaethol na gwylwyr eraill yn y DU.

14. Mae ITV yng Nghymru yn gallu cyrraedd ei chynulleidfa ac yn gallu cael effaith arni. At hynny, mae'n boblogaidd iawn – dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhlith 2538 o bobl (ym mis Tachwedd 2008) fod traean o'r rhai a ymatebodd yn cael eu newyddion am Gymru yn bennaf drwy ITV Wales.

15. Mae perfformiad rhaglenni ITV Wales yn ystod yr oriau brig yn pwysleisio pwysigrwydd cael darparwr prif ffrwd arall ac eithrio'r BBC yng Nghymru. Mae ITV Wales yn darlledu bron i ddwywaith o raglenni nad ydynt yn newyddion yn ystod yr oriau brig (6pm – 9pm) o gymharu â BBC1 Wales. Byddai colli'r gwasanaeth hwn ar ITV yn golygu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n gwylio rhaglenni sydd wedi'u seilio ar Gymru.

16. Mae ymchwil Ofcom ei hun yn dangos bod gwasanaethau newyddion ITV yn darparu ar gyfer cynulleidfa sy'n wahanol o ran demograffeg i gynulleidfa'r BBC. Gallai dibynnu ar un darparwr ynysu rhannau sylweddol o'r gynulleidfa rhag cael gwybodaeth am fywyd yng Nghymru, rhag cael adloniant Cymreig a rhag teimlo'u bod yn gysylltiedig â hynny. Mae hanfod dinasyddiaeth dda wedi'i seilio ar boblogaeth sydd wedi'u haddysgu am ddemocratiaeth ac sy'n cyfrannu tuag ato. Mae hynny'n gofyn am ddealltwriaeth o ddigwyddiadau cyfoes. Wrth gynnal arolygon yng Nghymru, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y gynulleidfa yn gwerthfawrogi cael newyddion ar ITV yn ogystal â'r BBC, a bod y gynulleidfa hefyd yn gwerthfawrogi rhaglenni nad ydynt yn newyddion.

17. Gallai unrhyw leihad pellach ar wasanaethau newyddion ITV yng Nghymru neu lai o ymrwymiad i ddarparu rhaglenni nad ydynt yn newyddion olygu na fyddai arbedion maint ITV yng Nghymru yn ddigonol. O ganlyniad, efallai na fyddai modd i'r sianel gynnal yr amrywiaeth angenrheidiol o sgiliau a chyfleusterau er mwyn gallu gweithredu'n ymarferol.

18. Pe bai ITV Wales yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru, ac os mai'r BBC fyddai'r unig ddarparwr a allai gynnig rhaglenni newyddion, rhaglenni materion cyfoes, rhaglenni nodwedd, rhaglenni dogfen, rhaglenni chwaraeon, rhaglenni adloniant a drama drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru, byddai dinasyddion Cymru'n cael gwasanaeth gwael gan y cyfryngau darlledu.

19. Mae'n rhaid cael gwahanol leisiau a gwahanol gyweiriau er mwyn sicrhau lluosogrwydd gwirioneddol. Ym marn yr is-bwyllgor, mae lluosogrwydd yn diogelu
mynegiant diwylliannol pobl Cymru ac yn greiddiol iddo. Mae hefyd yn adlewyrchu profiadau pobl Cymru o ddydd i ddydd ar y teledu neu drwy wasanaethau eraill. Dim ond drwy gynnig sawl safbwynt gwahanol gan wahanol ddarlledwyr a darparwyr cynnwys y gellir cyflawni hyn.

20. Ym marn yr is-bwyllgor, byddai cael dim ond un ffynhonnell ddarlledu drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru yn annerbyniol. Mae'r is-bwyllgor yn argymell y dylai'r darpariaethau a wneir ar gyfer dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol gynnwys camau i sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus drwy ddarparwyr ar wahân i'r BBC.

21. Mae'r is-bwyllgor yn nodi'r canlynol:

- Sylw Ofcom (adran 5.55): *"a refined BBC/Channel 4 model could see S4C and Channel Four operate side by side, with further competition introduced through an element of public funding"* Mae Ofcom yn cyfeirio at y ffaith bod y Sefydliad Materion Cymreig a chyrff eraill o blaid model cyllido sydd wedi'i ddatganoli'n sylweddol iawn i Gymru.

- Barn Ofcom: *'future models for Channel 3 based on the existing licence or a future stand-alone Welsh licence would be unlikely to be viable. Were a future stand alone licence to be held by ITV plc, some element of cross-subsidy from the English licence might continue to be possible. But otherwise…some forms of public funding would be required'*

22. Mae'r is-bwyllgor yn cydnabod y byddai angen i drwydded ar gyfer sianel 3 yng Nghymru gael traws-gymhorthdal o ryw fath, ond os nad yw ITV yn cyflawni'r hyn y mae wedi ymrwymo iddo yng Nghymru, dylid creu trwydded ar wahân ar gyfer sianel 3 yng Nghymru.

*Bwrdd comisiynu ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus*

| |
|---|
| Mae'r is-bwyllgor yn argymell y dylid sefydlu cronfa ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a hynny er mwyn bod yn gyfrifol am ddosbarthu arian ar gyfer Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus |

23. Mae'r is-bwyllgor yn nodi'r awgrym a wnaed gan Ofcom y gellid sefydlu model ar gyfer cyllid cystadleuol drwy gorff sy'n dyrannu cyllid, gyda Senedd y DU yn pennu'r gyllideb a'r amcanion. Dyletswydd y corff cyllido fyddai dyrannu cyllid drwy dendrau cystadleuol er mwyn llenwi'r bylchau mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, a hynny ar ôl ymgynghori â'r cynulleidfaoedd ynghylch eu blaenoriaethau.

24. Ym marn yr is-bwyllgor, dylid sefydlu cronfa o'r fath yng Nghymru. Byddai'r gronfa honno o dan ofal comisiwn, bwrdd neu awdurdod, a byddai'r trefniadau llywodraethu priodol wedi'u pennu. Y gronfa fyddai'n gyfrifol am asesu'n strategol faint o raglenni gwasanaeth cyhoeddus i'w comisiynu, ynghyd ag asesu natur y rhaglenni hynny. Byddai'r gronfa hefyd yn gyfrifol am sicrhau mai diben y cyllid yw cyrraedd cynifer o bobl â phosibl a chael yr effaith fwyaf posibl.

25. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn fater o bwys penodol i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Yng Nghymru, byddai'n addas i'r gronfa ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus fod yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal ag i Lywodraeth y DU. Dylai strwythur llywodraethu a threfniadau atebolrwydd y gronfa adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y galw ac yn anghenion y gynulleidfa yng Nghymru.

26. Dylid penodi aelodau'r gronfa drwy ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

27. Dylai darparwyr prif ffrwd, megis y darparwr a fyddai'n cael trwydded i olynu ITV, allu gwneud cais i'r gronfa, a hynny er mwyn cynnal y lefel bresennol o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn ystod yr oriau brig ar wasanaeth rhwydwaith prif ffrwd. Fodd bynnag, dylai'r cyllid ar gyfer Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus fod ar gael i ddarparwyr eraill mewn cyfryngau eraill, gan gynnwys radio a darpariaeth ar-lein, radio cymunedol a masnachol, IPTV a darparwyr cynnwys band eang.

28. Dylid ystyried darparu sbectrwm darlledu ar gyfer gwasanaeth digidol yng Nghymru yn rhan o gylch gorchwyl y gronfa ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae S4C eisoes yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n sefyll ar ei draed ei hun yng Nghymru, ac mae hynny'n unigryw. Ei waith yw darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd ganddo ddwy sianel ddigidol, sydd ar hyn o bryd yn darlledu ar ffurf S4C Digidol ac S4C2. Ei swyddogaeth statudol yw darparu gwasanaethau

darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae ganddo hawl hefyd fel corff i ddefnyddio'i incwm masnachol at ddibenion eraill, ac mae wedi buddsoddi mewn busnesau megis INUK, nad ydynt yn rhai craidd. Tra nad ydym yn credu y dylai S4C fod yn comisiynu deunydd Saesneg, credwn y gallai S4C gynorthwyo i redeg y gronfa ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Gallai gynorthwyo'r gronfa drwy ddarparu adnoddau cefn swyddfa, rhoi gwybodaeth arbenigol am y gynulleidfa, a gwybodaeth arbenigol am drawsyrru.

*Y dewisiadau ar gyfer ariannu darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus*

Mae'r is-bwyllgor yn gofyn i Ofcom ystyried anghenion penodol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wrth ariannu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n berthnasol i bob gwlad, ac mae'n argymell bod cyllid sylweddol o nifer o ffynonellau'n cael ei ddefnyddio gan y gronfa ar gyfer y cynnwys hwnnw

29. Fel y pwysleisia Ofcom yn ei ddogfen ymgynghori, bydd y pum mlynedd nesaf yn gyfnod o newid sydyn iawn yn y diwydiant darlledu. Erbyn 2012, bydd y newid i'r digidol wedi'i gwblhau drwy'r DU a bydd ffi trwydded y BBC a pherfformiad S4C yn cael eu hadolygu, a hynny yng nghyd-destun newid gwleidyddol a chyfansoddiadol sydyn a pharhaol drwy'r DU.

30. Mae'r is-bwyllgor yn nodi'r pryderon sydd yn nogfen ymgynghori Ofcom ynghylch dyfodol cyllid Channel 4.

31. Wrth ariannu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol, mae'n rhaid rhoi sylw i anghenion penodol a gwahanol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r is-bwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Ofcom yn cydnabod y gwledydd datganoledig, a'u hanghenion gwleidyddol a diwylliannol unigryw. Mae datblygiad datganoli a sefydliadau cyhoeddus cysylltiedig yn pwysleisio'r ffaith bod angen rhaglenni cynhwysfawr ym mhob ffurf sy'n adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth bywyd Cymru, o newyddion a materion cyfoes i adloniant a drama. Dylai'r rhaglenni hyn gael eu darparu gan y BBC a darparwyr eraill, er mwyn sicrhau bod digon o luosogrwydd.

32. Mae'r is-bwyllgor yn awyddus i sicrhau nad yw ceisiadau Channel 4 am ragor o gyllid, neu'r angen i ariannu cynnwys rhanbarthol yn Lloegr, yn digwydd ar draul anghenion penodol pob un o'r gwledydd datganoledig.

33. Mae'r is-bwyllgor yn argymell y dylid ystyried ffyrdd eraill o ariannu darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC, gan gynnwys:

- Codi arian drwy werthu sbectrwm
- Cyflwyno taliadau am asedau rheoleiddiol ac ardollau ar gyfer rhannau o'r diwydiant, megis darparwyr cynnwys a systemau chwilio ar-lein.

34. Mae'r is-bwyllgor yn cytuno â datganiad Ofcom:

*“the surplus in the current licence fee settlement that is ring fenced to pay for costs of digital switchover, if retained, could be used for other purposes after 2012, without in any way curtailing the BBC’s ability to deliver high quality public service content. This sum equates to circa £130 million per year.’*

35. Mae Comisiwn Darlledu’r Alban wedi awgrymu creu sianel deledu ddigidol sy’n darparu gwasanaeth cyhoeddus ynghyd â llwyfan cyflwyno estynedig ac arloesol ar-lein. Byddai angen tua £70 miliwn o gyllid blynyddol er mwyn darparu hyn.

36. Nid yw’r Pwyllgor Darlledu na’r Is-bwyllgor Darlledu wedi ffurfio barn ynghylch creu ‘sianel’ i Gymru. Yn hytrach, ceisiwyd mynd i’r afael â diffygion yn y farchnad gan gymryd camau mwy graddol.

37. Fodd bynnag, rhaid cofio bod ITV mewn sefyllfa ariannol enbyd a’i fod fel darlledwr yn bwriadu troi cefn ar ei ymrwymiad i ddarparu amrywiaeth eang o raglenni o Gymru. Am hynny, er y byddai’r bwrdd neu’r awdurdod ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn gyfrifol am y cyd-destun strategol wrth ddyrannu cyllid ac am y broses honno ei hun, byddai’n gyfrifol hefyd am y gofod sbectrwm ar gyfer trawsyrru rhaglenni.

38. Mae’r is-bwyllgor yn awyddus iawn i sicrhau bod rhaglenni Saesneg yng Nghymru yn cael eu darparu ar wasanaethau prif ffrwd megis ITV. Serch hynny, mae’r is-bwyllgor yn cydnabod y posibilrwydd na fydd hyn yn realistig y tu hwnt i 2012. Amcan y gronfa ar gyfer cynnwys fyddai sicrhau amrywiaeth o gynnwys ar gynifer o lwyfannau â phosibl, a sicrhau nad yw’r cynnwys hwnnw’n cael ei ddarparu ar un llwyfan cyflwyno neu drwy un gwasanaeth yn unig.

39. Ar hyn o bryd, mae’n anodd amcangyfrif lefel y cyllid sy’n angenrheidiol ar gyfer darpariaeth o’r fath. Fodd bynnag, dylai lefel y cyllid fod yn ddigonol i ddarparu cynnwys amrywiol ar nifer o lwyfannau cyflwyno ac mewn sawl ffurf. Dylai gynnwys digon o gyllid i allu bod yn gyfrifol am sbectrwm darlledu sy’n gallu cynnal sianel gynnwys yn y dyfodol
.

40. Mae Pwyllgor Darlledu’r Alban wedi dweud mai £70 miliwn fyddai cost creu sianel ddigidol a’i chynnwys. Byddai cyllideb y gronfa ar gyfer cynnwys yn ddibynnol ar amrywiaeth y ffurfiau o raglenni a fyddai’n cael eu comisiynu, yn ogystal ag ar gostau cynnal sianel ddigidol pe bai hyn yn digwydd. Mae S4C, sydd â dwy sianel ddigidol ar wahân, yn cael incwm o £93 miliwn gan y Llywodraeth ynghyd â rhaglenni sy’n costio £25 miliwn gan y BBC. Mae S4C hefyd yn gallu defnyddio’i incwm o’i weithgareddau masnachol. Ar y llaw arall, cyllideb bresennol ITV Wales yw tua £12 miliwn.

*Rhaglenni’r rhwydwaith a chynnwys gwasanaeth cyhoeddus*

Mae'r is-bwyllgor yn argymell y dylid cyrraedd y targed ar gyfer darparu 5% o gynnyrch rhwydwaith y BBC o Gymru erbyn 2012 yn hytrach na 2016, ac yn hynny o beth, dylai Ofcom fonitro'r BBC a sicrhau ei bod yn atebol.

41. Mae'r is-bwyllgor yn croesawu bod y BBC wedi cytuno ar 5% fel y targed isaf ar gyfer cynnyrch rhwydwaith o Gymru rhwng nawr a 2016, gyda gwerth y rhaglenni hynny yn £50 miliwn o leiaf. Rydym wedi'n calonogi hefyd gan gyhoeddiad y BBC y bydd rhaglenni rhwydwaith megis 'Crimewatch' yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, a bod y gorfforaeth yn ystyried o ddifrif symud 'Casualty' o Fryste i Gaerdydd.

42. Fel y dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, 5% yw'r targed isaf, yn hytrach na'r uchaf. Wrth drosglwyddo nifer sylweddol o raglenni mewnol y BBC i Gymru, rydym yn awyddus iawn nad yw cynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru yn colli'r cyfle i gael comisiwn gan rwydweithiau'r BBC. Rydym yn gofyn am sicrhad gan Ofcom a'r BBC na fydd hyn yn digwydd fel canlyniad anfwriadol i bolisi comisiynu'r rhwydwaith. Dylai Ofcom allu mesur a monitro'r ymrwymiad hwnnw gan y BBC i'r sector annibynnol.

*Channel 4*

Mae'r is-bwyllgor yn argymell bod Ofcom yn mynnu bod Channel 4 yn comisiynu o leiaf 5% o'i gynnyrch o Gymru

43. Mae'r is-bwyllgor yn croesawu cynnig Ofcom i gyflwyno cwota ar gyfer cynnyrch Channel 4 o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ôl 2010. Fodd bynnag, mae'r targed o 3% ar gyfer comisiynu cynnyrch y sianel o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhy isel a dylai fod wedi'i seilio'n fras ar faint poblogaeth pob gwlad. Dylai cyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 fod wedi'u seilio ar yr egwyddor bod angen darparu ar gyfer anghenion cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig.

44. Wrth ddisgrifio'i ymrwymiadau i'r Pwyllgor Darlledu, dywedodd Channel 4:

*"The current status of both S4C and Channel 4 will change, as there will no longer be any analogue TV broadcasting in Wales. S4C will become a primarily Welsh-language service, and Channel 4 will become a truly national broadcaster, available to all homes in Wales for the first time on a free-to-air basis. As a result, Channel 4 will be committed to ensuring that our core objectives are achieved across the whole of the UK, including Wales."*

45. Dylai'r gofyniad hwn i gael cwotâu ar gyfer cynnyrch o'r gwahanol wledydd fod yn gysylltiedig â threfniadau cyllido newydd Channel 4 yn y tymor hir fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus. Mae gan Channel 4 gyfrifoldeb i adlewyrchu'r Deyrnas Unedig gyfan wrth ddarparu gwasanaethau, ac mae isafswm cwota o 5% ar gyfer cynnyrch o Gymru yn gwbl briodol.

*Materion rheoleiddiol yn y tymor byr*

46. Cyfiawnhad ITV dros leihau ei ymrwymiadau i Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yw na fydd yr orfodaeth honno yn arwain at ddigon o fanteision yn ystod 2011. Mae Ofcom yn cytuno â hyn. Yn ôl ITV, bydd mwy o gostau na manteision yng Nghymru erbyn 2009.

47. Cynnig ITV yn y tymor byr, a chynnig Ofcom ar gyfer Cymru, yw cwtogi'r newyddion yng Nghymru o 5 awr 20 munud i "ddim mwy na phedair awr", a hynny drwy gael gwared ar y bwletinau yn y boreau yn ystod yr wythnos ac amser cinio ar y penwythnos.

48. Mae ITV wedi gofyn am gwtogi ei ddyletswydd bresennol i ddarparu rhaglenni nad ydynt yn newyddion o dair awr i awr a hanner yr wythnos ar ôl 2009. Mae'n dweud y bydd yr awr a hanner sy'n weddill yn cael ei ddarlledu yn ystod yr oriau brig neu yn agos at yr oriau brig, a byddai hynny'n cynnwys materion cyfoes.

49. Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud bod ymrwymiad i ddarparu newyddion 'rhanbarthol' tan 2012, ond bod ITV yn dymuno adolygu ei ddarpariaeth newyddion rhanbarthol yn 2011.

50. Pwysleisir pwysigrwydd cael darparwr prif ffrwd arall ar wahân i'r BBC yng Nghymru yn sgil y ffaith bod rhaglenni ITV Wales yn perfformio cystal yn ystod yr oriau brig. Mae ITV Wales yn darlledu dwywaith y cynnyrch nad yw'n newyddion yn ystod yr oriau brig (6pm – 9pm) o gymharu â BBC1 Wales. Byddai colli'r gwasanaeth hwn ar ITV yn golygu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n gallu gwylio rhaglenni o Gymru. Oherwydd y galw ymhlith y gynulleidfa, a'r ffaith y byddai unrhyw gwtogi ar raglenni ITV Wales yn lleihau lluosogrwydd yn sylweddol, dylid gwrthwynebu'n gadarn unrhyw gwtogi mewn gwasanaethau.

51. Mae'r is-bwyllgor yn siomedig gyda chynnig Ofcom i gwtogi isafswm y gofyniad ar gyfer cynnyrch nad yw'n newyddion gan ITV o 3 awr i 1.5 awr ym mis Ionawr 2009, er ei fod yn croesawu'r ymrwymiad i gynnal y nifer presennol o raglenni naill yn ystod yr oriau brig neu'n agos at yr oriau brig.

52. Tra bo'r is-bwyllgor yn deall pryderon ITV ynghylch dichonolrwydd yn y dyfodol, ar hyn o bryd mae angen cael cydbwysedd rhwng anghenion y cynulleidfaoedd a phryderon ITV ac Ofcom ynghylch dichonolrwydd cyffredinol ITV.

53. Yng nghyd-destun incwm a gwariant cyffredinol ITV, nid yw cyfanswm honedig cyllideb ITV yng Nghymru o tua £13 miliwn yn sylweddol.

54. Dywed ITV nad yw mewn sefyllfa ariannol i gynnal ei ymrwymiadau i Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru tan 2014, nac hyd yn oed i gynnal y sefyllfa bresennol ar ôl mis Ionawr 2009.

55. Fodd bynnag, er bod sefyllfa ariannol ITV o bosibl yn anodd, mae gan gynulleidfaoedd yng Nghymru anghenion penodol a dylai Ofcom sicrhau bod lefel bresennol y gwasanaeth, o ran oriau, amserlenni a chyllid, yn cael ei gynnal.

Oherwydd yr arwyddocâd i gynulleidfaoedd yng Nghymru, a phrinder unrhyw ddarpariaeth arall ar hyn o bryd, credwn y dylid cynnal lefel bresennol cynnyrch ITV Wales tan o leiaf 2012.

Mae'r is-bwyllgor yn argymell bod Ofcom yn ailystyried a ddylai fod wedi cytuno â chynigion ITV i gwtogi'r cynnyrch nad yw'n newyddion yng Nghymru, a dylai roi pwysau ar ITV i ymrwymo'n barhaol i ddarparu 5 awr 20 munud o newyddion a 3 awr o gynnyrch nad yw'n newyddion bob wythnos

*Y newid i'r digidol*

Mae'r is-bwyllgor yn argymell bod Ofcom yn sicrhau bod S4C ar gael i bawb ar ôl y newid i'r digidol

56. Yn ei adroddiad, gofynnodd Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol i Ofcom sicrhau bod gwasanaethau S4C ar gael ar bob llwyfan cyflwyno digidol drwy gydol y broses o newid i'r digidol, a hynny drwy Gymru gyfan
.

57. Dywedodd swyddogion S4C wrth y Pwyllgor Darlledu eu bod yn pryderu bod yr amserlen ar gyfer y newid i'r digidol yn golygu y gallai fod bwlch rhwng y cyfnod pan fydd S4C yn symud i system amlbleth newydd ac yn newid i'r digidol. Gallai hynny olygu na fydd S4C ar gael am gyfnod.

58. Mae'r is-bwyllgor yn gofyn i Ofcom sicrhau bod S4C ar gael i bawb ar ôl y newid i'r digidol.

*Radio*

Mae'r is-bwyllgor yn argymell y canlynol:

- Ni ddylid newid i'r digidol yng Nghymru oni bai bod modd sicrhau'n bendant y bydd 97% o bobl yn gallu derbyn Darlledu Sain Digidol (DAB) yng Nghymru

- Pwyllgor ymgynghorol Ofcom yng Nghymru ddylai ystyried ceisiadau ar gyfer trwyddedau radio cymunedol

59. Tra nad yw radio'n rhan o adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, bydd newid i'r digidol yn y maes hwnnw yn y dyfodol agos yn

golygu y bydd gwrandawyr yng Nghymru dan anfantais o ganlyniad i broblemau darlledu Radio Cymru a Radio Wales drwy Ddarlledu Sain Digidol (DAB).

60. Mae'r is-bwyllgor yn gofyn am sicrwydd na fydd Cymru yn newid i'r digidol oni bai bod modd sicrhau'n bendant y bydd 97% o holl bobl Cymru'n gallu derbyn Darlledu Sain Digidol (DAB).

61. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu cronfa o £500,000 dros 5 mlynedd i helpu i ddatblygu'r sector radio cymunedol.

62. Rydym yn pryderu nad yw'r penderfyniadau ar drwyddedu radio cymunedol yng Nghymru wedi'u datganoli gan Ofcom i'w bwyllgor ymgynghorol nac i unrhyw gorff arall sy'n ymwneud â Chymru. O wneud hynny, gallai penderfyniadau ynghylch rhoi trwyddedau cymunedol yng Nghymru gael eu gwneud ar sail anghenion Cymru. Dylai Ofcom roi'r cyfle i'w bwyllgor ymgynghorol yng Nghymru ystyried ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol.

63. Credwn fod galw am wasanaethau radio cymunedol yng Nghymru, ac nad yw'r polisi presennol o ganiatáu trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig yn ateb y galw hwnnw. Mae'r pwyllgor yn credu y byddai Cymru ar ei hennill o gael trwyddedau hwy a rhagor o barhad. Felly, rydym yn gofyn i Ofcom ailystyried y mater hwn.

*Portreadu Cymru ar wasanaethau rhwydwaith*

| |
|---|
| Mae'r is-bwyllgor yn argymell bod Ofcom yn comisiynu arolwg o raglenni Channel 4 a newyddion ITN er mwyn canfod faint o sylw y mae Cymru'n ei chael ar eu gwasanaethau |

64. Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn ymdrin â sut y caiff Cymru ei phortreadu ar wasanaethau rhwydwaith. Mae Adroddiad King, a gyhoeddwyd gan y BBC ym mis Gorffennaf 2008, eisoes wedi arwain at wella'r modd yr adroddir am Gymru ar newyddion a rhaglenni materion cyfoes rhwydwaith y BBC. Mae'r is-bwyllgor yn gofyn i Ofcom gomisiynu arolwg tebyg o raglenni Channel 4 a gwasanaeth newyddion ITN i ITV er mwyn canfod faint o sylw sy'n cael ei roi.